# Y Bont

Rhifyn 70
ISSN 1464-4282

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS
www.clybiauplantcymru.org

Haf 2019



## Yn y rhifyn hwn...

* Newyddion Rhanbarthol
* Newyddion Prosiectau
* Diweddariad i Gyflogwyr
* Y Gynhadledd Gwaith Chwarae Genedlaethol ...a mwy!

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig
drwy Warrant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Yn gweithio mewn partneriaeth â:

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS

Rhifyn 70 Haf 2019

## Yn y rhifyn hwn...

Llythyr gan y Prif Swyddog Gweithredol.........2
Gweithgareddau'r Haf...............3
Ffocws ar Orllewin Cymru...4 & 5
Ffocws ar Ogledd Cymru....6 & 7
Ffocws ar Dde Ddwyrain Cymru................................8 & 9
Hyfforddiant.....................10 & 11
Pwyllgorau Rheoli Gwirfoddol..12
Syniadau Codi Arian...............13
Prosiectau........................14 & 15
Diweddariad i Gyflogwyr.16 & 17
Y Cynllyn Gwaith Da.............18

Ymwadiad:
Gwneir pob ymdrech gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i sicrhau bod cynnwys ein newyddlen yn gywir Dylech nodi nad yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cymeradwyo unrhyw un o'r gwasanaethau, clybiau, gweithgareddau nac erthyglau, ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw weithred ar ran unrhyw berson neu grŵp o bobl sy'n darllen y newyddlen. Er gwybodaeth yn unig y dosberthir y newyddlen; heb gyfrifoldeb na rhwymedigaeth gyfreithiol.

Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260

Swyddfa Gofrestredig:
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs,
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien,
Caerdydd. CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000
Ffacs: 029 2074 1047
E-bost: info@clybiauplantcymru.org
Y We: www.clybiauplantcymru.org

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Aelod o Glwb Gofal Plant All-Ysgol



Croeso i rifyn yr haf o'r Bont, sydd unwaith eto'n llawn dop o newyddion, diweddariadau prosiect a syniadau am weithgareddau i'ch Clwb. Gwelwch isod ddiweddariad cyflym o'r cyfarfodydd Strategol yr ydym eu mynychu, i fod yn llais i chi; llais Gofal Plant Allysgol ledled Cymru.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cadarnhau y bydd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol hon, 2019-2020. Cofiwch wylio am newyddion pellach ar hyn ar ein cyfryngau cymdeithasol a'r wefan yn y misoedd i ddod. Mae yn awr yn amser da i sicrhau bod eich **Adolygiad Ansawdd Gofal** blynyddol, y bydd ei angen yn rhan o'r broses hon, yn gyflawn.

Mae AGC wedi cyhoeddi arweiniad i sefydliadau sy'n trawsnewid i fod yn Sefydliadau Corfforedig Elusennol, a'r gofynion o gylch cofrestru. Os ydych yn ystyried newid strwythur cyfreithiol eich Clwb, gwelwch y wybodaeth sydd yn nes ymlaen yn y newyddlen hon a gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu; gallwch eich cefnogi drwy'r broses hon. Cewch hyd i'r arweiniad yma: https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2019-02/190220-charitable-incorporated-organisation-guidance-en.pdf

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gweld sut y gall Clybiau Gofal Plant Allysgol sydd wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru gefnogi'r **Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol** (SHEP) neu glybiau Bwyd a Hwyl. Os ydych â diddordeb mewn darparu Gofal Gwyliau o dan y rhaglen hon, neu os ydych yn bryderus ynghylch clwb SHEP sy'n weithredol yn eich ardal chi, cofiwch gysylltu drwy info@clybiauplantcymru.org.

Rydym wedi cynorthwyo NCFE CACHE i gael **Gwaith Chwarae Lefel 5** wedi ei addasu i'r fframwaith Brentisiaeth, ac mae'n bleser o'r mwyaf gennym fod wedi dechrau cyflenwi'r cymhwyster hwn i 4 dysgwr. Rydym yn gobeithio y gallwn gyflenwi mwy o'r cymhwyster hwn yn y dyfodol agos. Os oes gennych diddordeb mewn gweithio at y cymhwyster hwn, cysylltwch drwy info@clybiauplantcymru.org > gan fy mod i'n sicr y bydd mynd mawr ar y cyfle hwn cyn gynted ag y bydd ar gael.

Mae gennym gyfoeth o brosiectau sy'n cynnig gweithdai mewn ardaloedd amrywiol ledled Cymru, yn cynnwys **Asiantaeth Ofod y DU, Bagiau Cymorth Tesco, Burbo Bank, Gwynt y Môr ac Ymddiriedolaeth Oakdale**; cadwch lygad ar ein gwefan, www.clybiauplantcymru.org neu ein cyfrwng cymdeithasol,www.facebook.com/clybiau, iweld y cyfleoedd sydd yn eich ardal chi; mae mwy o fanylion am y prosiectau yn eich rhanbarth chi yn nes ymlaen yn y newyddlen yma.

**Yr Iaith Gymraeg** - drwy ein prosiect, Cymraeg Gwaith, a chydag arianny o Lywodraeth Cymru, rydym yn dal i weithio gyda'n partneriaid yn CWLWM a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i helpu Llywodraeth Cymru i wireddu eu targed o #millionwelshspeakers. Rydym yn datblygu nifer o adnoddau newydd a chyffrous ac wedi creu adnodd ar-lein, "Welsh now in a minute". Bydd ein tîm Cymraeg Gwaith yn cynhyrchu fideo misol o ymadroddion a fydd yn eich helpu chi a'ch staff i gynyddu'r defnydd o Gymraeg yn eich lleoliad. Byddwn hefyd yn cefnogi'r Ganolfan Dysgu'r partneriaid i drefnu hyfforddiant a chefnogaeth i'r sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i annog eu staff i ddysgu Cymraeg; mwy ar hyn yn nes ymlaen yn y newyddlen.

Rwy'n siŵr eich bod wedi gweld bod thema'r Diwrnod Chwarae (Play Day) a gaiff ei ddathlu ar ddydd Mercher, Awst 7 wedi ei gyhoeddi. Gallwn gadarnhau mai **thema 2019 fydd *Play Builds Children*** a'i nod yw tynnu sylw at yr amryfal ffyrdd y mae chwarae o fudd i blant a phobl ifanc.

- **Mae Chwarae'n Meithrin Cyfeillgarwch** - mae chwarae'n rhoi cyfle i blant ryngweithio gydag eraill, datblygu perthnasoedd, delio â gwrthdaro a dysgu parch a goddefgarwch.
- **Mae Chwarae'n Meithrin Gwytnwch** – mae chwarae'n rhoi hwb i hyder plant, i greadigrwydd, sgiliau datrys-problemau a dyfalbarhad, gan roi'r gallu iddynt ymdopi â straen a heriau drwy gydol eu bywydau.
- **Mae Chwarae'n Meithrin Iechyd a Llesiant** – mae cadw'n fywiog drwy chwarae'n helpu plant yn gorfforol ac yn emosiynol, gan gyfrannu at eu hiechyd a'u hapusrwydd.
- **Mae Chwarae yn Meithrin Cymunedau** – mae chwarae'n rhoi cyfle i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas, i wneud cysylltiadau a datblygu synnwyr o bwy ydynt ac o berthyn.
- **Mae Diwrnod Chwarae'n** ddathliad blynyddol o chwarae plant, a miloedd o blant a theuluoedd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ar hyd a lled y DU. Mae'n gyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae plant a'r angen am gyfleoedd am chwarae o ansawdd bob diwrnod o'r flwyddyn.

Gobeithiwn y byddwch chi'n cynnal neu'n mynd i'ch digwyddiad Diwrnod Chwarae eich hunan, ac y gallwch helpu i ledaenu'r gair drwy ddefnyddio #Playday2019 / #DiwrnodChwarae2019.

Jane O'Toole, Prif Swyddog Gweithredol

# Y Gynhadledd Gwaith Chwarae Genedlaethol

## Yr 17eg Gynhadledd Gwaith Chwarae Genedlaethol - Eastbourne 2019
(Bev Williams, Swyddog Hyfforddi)

Eleni, bûm i, (Bev Williams, Swyddog Hyfforddi) yn ddigon ffodus i fod yn bresennol yn y 'Gynhadledd Gwaith Chwarae Genedlaethol' - yr 17eg digwyddiad blynyddol, sydd wedi cael ei gynnal yn Eastbourne ers 2001. Roedd y digwyddiad yn brofiad rhyfeddol; a ches i'r cyfle arbennig o gael cyfarfod a throi ymysg Gweithwyr Chwarae, Gweithredwyr Chwarae a Damcaniaethwyr (hen a newydd) o bob cwr o'r DU.

Roedd nifer o sesiynau gweithdy ar gael dros y ddau ddiwrnod, yn ymdrin â phynciau o 'ddeall y cylch chwarae' i 'cyllyll, gynnau a gangiau: chwarae mewn dinas dreisgar' - ac ymhlith hwyluswyr y gweithdai yr oedd mawrion y maes gwaith chwarae, megis Bob Hughes, Ali Wood, Meynell, Jess Milne a Jacky Kilvington.

Dyma grynodeb o'r nifer o sesiynau y bûm yn bresennol ynddynt:

**BECKY BENNET – Chwarae, iaith ryngwladol plentyndod**
Roedd hwn yn sesiwn wych. Dysgais am sut yr ydym ni fel Gweithwyr Chwarae'n cyfathrebu'n naturiol ac yn effeithiol â phlant a phobl ifanc - gan atgyfnerthu fy nghred bod 'Chwarae'n Iaith Ryngwladol'.

Mwynheais glywed am waith gwirfoddol Becky a Joan Beattie gyda phlant Sipsiwn Romani Romania – a dyma a'm hysbrydolodd i fynd yn gydymaith i Joan i Transilvania eleni – gweler mwy o wybodaeth isod.

**MAYNELL – "Does dim o'r fath beth â Chwarae Rhydd"**
Roedd Maynell wedi dod i'r casgliad bod Chwarae Rhydd yn Wrtheiriad' drwy 'adael i blant chwarae'n rhydd mae oedolion yn dal i roi caniatâd i blant chwarae - ac oedolion yn y pen draw sy'n dewis ac yn darparu'r chwarae i'r plant, hyd yn oed y rhannau rhydd.

Rydw i â barn wahanol, ac yn teimlo os ydym yn ymgynghori â phlant, ac yn arsylwi ar y plant a'r bobl ifanc yn chwarae, gallwn benderfynu eu hanghenion chwarae a deall yn well yr hyn sydd orau ganddynt o ran chwarae, sy'n ein galluogi ni i gynllunio a darparu adnoddau addas – mae hyn hefyd yn rhoi i'r plant berchnogaeth ar eu chwarae a'u man chwarae.

Rwy'n argymell yn gryf y gynhadledd 2 ddiwrnod hwn; os cewch gyfle i fynd, chewch chi mo'ch siomi.

Uchafbwynt fy mhrofiad yn y gynhadledd oedd cyfarfod â'm harwr, y damcaniaethwr a gweithredydd chwarae, Bob Hughes - am ddyn! Mae cyhoeddiadau Bob wedi ennyn brwdfrydedd ynof i ar hyd fy ngyrfa, a dwi wedi dysgu cymaint o'i fethodoleg. Mae adnabod Mathau o Chwarae Bob wedi fy helpu i ddeall yn well sut a pham y mae plant yn chwarae, ac rwy'n defnyddio'r fframwaith First Claim - a ddaeth o gyhoeddiad Bob, 'Best Play' - fel erfyn archwilio chwarae wrth gyflenwi Gwaith Chwarae er mwyn helpu Gweithwyr Chwarae newydd i ddarparu rhannau rhydd ac adnoddau i wella'u mannau chwarae.

Dyma'r frysddolen sydd â manylion y gynhadledd : http://www.playworkconferences.org.uk/

### Ymweliad â Romania - Gorffennaf 2019

A mi wedi fy ysbrydoli gan weithdy y bûm ynddo yn 17eg Cynhadledd Gwaith Chwarae Genedlaethol, byddaf yn teithio i Transilvania yn Romania am 10 niwrnod ym mis Gorffennaf - i ddod â chyfleoedd chwarae i blant Sipsiwn Romani ym mhentrefi Targu Mures a Ormenis.

Mae'r plant sy'n dod o'r pentrefi hyn ymysg y tlotaf yn Ewrop; 2 pryd yr WYTHNOS yn unig a warentir iddynt o 'Cantena' lleol, y rhain yn cael eu darparu gan weithiwr cymunedol o'r enw Gino sy'n rhedeg y Cantena - a gaiff ei hariannu o roddion ariannol yn unig - a hynny, gan fwyaf drwy Joan Beatty.

O oed ifanc iawn mae disgwyl i blant y pentref ofalu am eu brodyr a'u chwiorydd iau, a chânt eu hanfon allan i'r strydoedd gan eu rhieni i fegera am arian.

Am 4 diwrnod yn ystod yr ymweliad byddwn yn cymryd 40 o blant i Wersyll Chwarae lle caiff y plant 2 set o ddillad newydd, 3 pryd y dydd a digonedd o brofiadau chwarae llawn hwyl.

Mae hwn yn gyfle gwych i mi, ac yn rhywbeth dwi wedi bod eisiau'i wneud erioed – os hoffai unrhyw un gyfrannu at fy ymdrechion i godi arian, dyma'r frysddolen http://bit.ly/BEV-WILLIAMS Diolch. :)

# Gweithgareddau'r Haf

A'r tywydd yn twymo a'r dyddiau'n ymestyn, mae hyd yn oed mwy o reswm i fynd allan i'r awyr agored.

### Tyfu'ch Gwledd eich Hun

Mae cymaint o fanteision i chwarae yn yr awyr agored. Yn ogystal â bod yn llawer o hwyl, mae'n ffordd wych o ymarfer corff ac yn lles; mae'n rhoi dogn da o Fitamin D ac yn gwella golwg o bwll yn ogystal â helpu plant i ddatblygu gwerthfawrogiad o natur. Mae gweithgareddau garddio er enghraifft yn helpu plant i gyfathrebu, cydweithio a datrys problemau mewn ffyrdd ymarferol - sgiliau bwyd. Bydd ein prosiect, Tyfu'ch Gwledd eich Hun, sydd wedi ei ariannu trwy garedigrwydd Ernest Cook, yn rhoi cyfle i ni ddatblygu anodau newydd ar ffurf cardiau gweithgaredd y gellir eu defnyddio gan staff a phlant er mwyn tyfu, cynaeafu a pharatoi gwledd yn eich clwb! Caiff y gweithgareddau eu teilwrio'n ofalus; eu hasesu o ran risg, a byddant yn rhoi i'r plant sgiliau ymarferol newydd, ymarferol i'w defnyddio yn yr awyr agored. Yn y cyfamser beth am ddechrau 'tyfu'ch gwledd eich hun' gyda'r gweithgaredd 'Pennau Berwr' syml yma.

**Beth fyddwch eu hangen:**

- Rhan droes pâr o dynion (tights)
- Cwpan
- Hadau berwr
- Compost
- Llygaid symudol, glanhawyr pib, ffelt, pethau naturiol e.e. mes a hadau
- Gwn glud tawdd, oer
- Glud PVA

**Beth sydd angen i chi ei wneud:**

1. Rhowch y darn o dynion yn y tu mewn i'r cwpan a throslapio ar y top. Rhowch tua dwy lwy de o hadau berwr y tu mewn i'r tynion. Llenwch bron y cyfan o'r tynion â'r compost.
2. Tynnwch y tynion oddi yno a chlymwch y pen. Trowch hwn drosodd fel bod y berwr ar y top.
3. Tynnwch allan rywfaint o'r tynion a'r compost y tu mewn iddo i wneud y trwyn. Defnyddiwch gylchyn rwber i'w ddal yn ei le.
4. Addurnwch weddill yr wyneb, gan gofio i adael top y pen yn rhydd i'r berwr dyfu fel gwallt.
5. Gosodwch y person berwr ar soser a dyfriwch yn dda. Rhowch hwn a sil ffenest. Gwiriwch bob dydd i weld a oes angen dŵr arno.
6. Pan fydd yr hadau'n egino, torrwch siâp croes ar y brig gan na fyddai berwr yn tyfu drwy'r tynion. Wedi i'r berwr dyfu, torrwch wallt eich person berwr a'i ddefnyddio mewn saladau a brechdanau!

### Adeiladu Cuddfanau...a mwy!

Rhowch i'r plant gymysgedd o'r eitemau isod a gadewch iddynt ddilyn eu dychymyg! Cewch gael gafael ar nifer o'r rhain drwy ofyn i rieni/gofalwyr a busnesau/archfarchnadoedd lleol.

**Hen gynfasau, llenni, netin, cewyll llaeth, cansenni gardd, pegiau, rhaff, bocsys, tâp, deunydd celf a chreff**

Gyda'r deunyddiau sy'n weddill, beth am gael y plant i feddwl am heriau sgil/camp y gallant eu creu. Torrwch dyllau yn y bocsys fel y gall y plant daflu, cicio neu dato gwahanol beli neu wrthrychau megis bagiau ffa, drwyddynt.

A allwch chi newid yr anawsterau drwy wneud tyllau o feintiau gwahanol a phennu sgoriau mewn pwyntiau fel y gall y plant gael mwy o bwyntiau o daro'r targedau anoddaf? Gofynnwch iddyn nhw benderfynu ar y rheolau, defnyddio sialc a nodi'r sgoriau.

Sawl camp neu weithgaredd a all y plant feddwl amdanynt? Anfonwch luniau i ni o'r pethau y byddwch yn eu creu er mwyn i ni eu cynnwys efallai yn rhifynnau'r dyfodol – info@clybiauplantcymru.org



# Gorllewin Cymru

## Datblygu Mannau Chwarae Awyr-agored yn Abertawe



Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf rhoddodd Cyngor Abertawe y cyfle i leoliadau a oedd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i wneud cais am ariannu ar gyfer Chwarae Awyr-agored. Roedd y grant er mwyn helpu lleoliadau gofal plant i ddatblygu'r mannau y tu allan i'w lleoliad ac annog cyfleoedd mwy aml i chwarae, a chafodd hyn dderbyniad da; derbyniodd 12 lleoliad Gofal Plant Allysgol grantiau o hyd at £500.00 i brynu cyfarpar ac offer storio. Fe wnaeth rhai lleoliadau brynu offer storio i gadw eu cyfarpar awyr-agored presennol; prynodd rhai gyfarpar chwarae awyr-agored newydd a defnyddiodd rhai yr arian i ddatblygu'r mannau y tu allan i'w lleoliad. Dyma rai ffotograffau o'r ffyrdd y mae'r lleoliadau wedi gwario'u grantiau.











## Chwarae Awyr-agored yn Waunarlwydd, Abertawe

Fe wnaeth plant a Gweithwyr Chwarae yng Nghlwb Amlapiol ac Ôl-ysgol Waunarlwydd yn Abertawe ddathlu eu cofrestriad diweddar gydag Arolygiaeth Gofal Cymru drwy brynu caban allanol gan eu galluogi i chwarae y tu allan a chysylltu â chysylltu â natur mor aml â phosibl!

A'r lleoliad gerllaw ardal goediog o dir yr ysgol, mae Beverly Burgess, y perchennog yn gweithio'n galed i ddatblygu'r man y tu allan er mwyn gwella profiadau'r plant o fod yn yr awyr agored. Bydd y caban, a gyrhaeddodd ac a adeiladwyd mewn un diwrnod, yn cael ei ymestyn drwy ychwanegu ardal llawr-estyll a nenlen to o boteli plastig. Mae'r clwb yn gweithio'n galed i gasglu digon o boteli, a fydd yn cael eu gosod at ei gilydd i greu eu to.

Mae dillad addas i'r awyr agored bob tr oar gael yn y lleoliad, gan wneud yn siŵr na chollir cyfle i chwarae y tu allan. Mae staff yn y lleoliad wedi gweld sut y mae'r plant wedi elwa ers cael y caban a gallu chwarae yn yr awyr agored mor aml â phosibl. Mae staff wedi dweud, "Mae'r plant wrth eu bodd y tu allan a byddant yn chwarae yno ym mhob tywydd. Mae'r caban newydd yn rhoi cysgod pan fydd ei angen, ond a'r drysau'n lled agored mae'r plant yn gallu symud yn rhwydd o'r tu mewn i'r tu allan.


**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gorllewin Cymru
drwy ffonio: 01269 831010,
drwy ebost: info-ww@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Uned 2, Clos Gelliwerdd, Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin. SA14 6RX


## Cynhadledd Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Abertawe 2019

Cynhaliodd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Abertawe eu Cynhadledd Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar 2019 ym mis Mawrth. A dewis o 15 gweithdy i fynd iddynt, roedd modd i weithwyr Gofal Plant a Chwarae fynd i 6 gwahanol weithdy yn ystod y diwrnod, yn amrywio o Feddwlgarwch *(Mindfulness)* i blant, Ffrwydriad Syrcas, Dweud Stori – yn seiliedig ar hawliau, Ysgolion Coedwig a Fferm Gymunedol Abertawe, ymhlith llawer mwy!

Cafodd pawb a oedd yn bresennol ddiwrnod prysur a chyffrous iawn, yn dysgu syniadau a sgiliau newydd, a chawsant fag adnoddau'n llawn rhoddion dai fynd yn ôl gyda nhw i'w lleoliadau! Cafodd bawb ddiwrnod ardderchog!

## Beth am Chwarae yn yr Awyr Agored, Cysylltwch â Natur yn Sir Benfro

Bydd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cyflenwi gweithdai AM DDIM i aelod-glybiau mewn rhannau o Sir Benfro o'r haf hwn ymlaen, diolch i gynllun ariannu Bagiau Cymorth Tesco.

Gall clybiau ddewis o'r canlynol sy'n atgyfnerthu iechyd a llesiant drwy chwarae awyr-agored ac amgylcheddol.

- **Adeiladu Deniau** (syniadau ar gyfer adeiladu deniau, drwy ddefnyddio pethau pob-dydd, yn eich lleoliad)
- **Yn Gyforiog o Gemau** (gemau cydweithredol sy'n datblygu a chefnogi sgiliau cymdeithasol, hunan-dyb a hyder)
- **Parth Natur** (syniadau ymarferol am weithgareddau chwarae amgylcheddol)
- **Chwarae Allan gyda'r Elfenna**u (yn cyflwyno'r ddaear, aer, tân a dŵr fel ysgogwyr i chwarae plant)

Bydd gweithdai yn cael eu cyflenwi i Weithwyr Chwarae a phlant mewn mannau Clybiau Gofal Plant Allysgol, felly cysylltwch os ydych â diddordeb!

01269 831010
info-ww@clybiauplantcymru.org

## Dyddiau Chwarae yng Ngorllewin Cymru

Y Diwrnod Chwarae yw diwrnod cenedlaethol chwarae yn y DU. **Eleni mae'r Diwrnod Chwarae'n digwydd ar Ddydd Mercher, Awst 7 2019** ar y thema, '**Mae Chwarae'n Adeiladu Plant**'. Mae hyn yn tynnu sylw at y nifer fawr o ffyrdd y mae chwarae o fudd i blant a phobl ifanc.

- Mae Chwarae'n Adeiladu Cyfeillgarwch - mae chwarae'n rhoi cyfle i blant ryngweithio ag eraill, datblygu perthnasoedd, delio â gwrthdaro a dysgu parch a goddefgarwch.
- Mae Chwarae'n Adeiladu Gwytnwch -mae chwarae'n rhoi hwb i hyder plant, eu creadigrwydd, sgiliau datrys-problemau a dyfalbarhad, gan eu galluogi i ymdopi â straen a heriau gydol eu bywyd.
- Mae Chwarae'n Adeiladu Iechyd a Llesiant - mae bod yn fywiog drwy chwarae'n helpu plant yn gorfforol ac emosiynol, gan gyfrannu at eu hiechyd a'u hapusrwydd.
- Mae Chwarae'n Adeiladu Cymunedau - mae chwarae'n rhoi cyfle i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas, gwneud cysylltiadau a datblygu synnwyr o hunaniaeth a synnwyr o berthyn.

Gwyliwch am Ddiwrnodau Chwarae a digwyddiadau cymunedol sy'n cael eu trefnu yn eich ardal chi.



### DIWRNOD CHWARAE RAY

Dydd Mercher, Awst 7fed 2019
11:30-3:30 Cae'r Sgwâr Aberaeron
**MYNEDIAD AM DDIM**
A thros 30 o sefydliadau yng Ngheredigion yn bresennol, bob un yn darparu gweithgareddau i blant a theuluoedd.

### DIWRNOD CHWARAE ABERTAWE

**Dydd Mercher Awst 7fed 2019**
10.00yb-1.30yh Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
(10.00-11.00yb yw'r awr dawel)
**MYNEDIAD AM DDIM**

## Cwrdd â'r Prentisiaid



**Rhowch beth o'ch hanes i ni**
Carly Beynon Lloyd ydw i, rwy'n fam i 3 ac yn gweithio fel Cynorthwyydd Dosbarth a Gweithiwr Chwarae yn Ysgol Gynradd Mayals, Abertawe. Rwy'n mwynhau cerddoriaeth fyw a gwydraid neis o win i ymlacio!

**Pam wnaethoch chi ddewis y cwrs?**
Ro'n i'n meddwl y byddai'r cwrs yn ffordd wych o ailgychwyn fy addysg. Mae'n dro byd ers i mi wneud unrhyw astudio a dwi'n edrych ymlaen at ennill fy Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, gyda golwg ar symud ymlaen ymhellach.

**Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am y cwrs?** Dwi'n dwlu ar y cwrs! Dwi'n ei gwblhau gyda grŵp hyfryd o fenywod. Ro'n ni i gyd yn dod ymlaen yn dda iawn ac yn sgwrsio, rhannu syniadau a helpu'n gilydd pan fydd angen i ni wneud. Mae'r sesiynau a ddysgir gyda fy nhiwtor yn wych. Maen nhw mor rhwydd i'w dilyn, ac yn lot o hwyl hefyd!

**A ydych chi'n teimlo bod unrhyw agweddau o'r cwrs yn heriol?** A bywyd cartref prysur, dwi yn ei chael hi'n anodd gwneud popeth o fewn yr amser weithiau, ond mae'n bosibl!

**A fyddech chi'n argymell y cwrs?**
Byddwn, byddwn i'n ei argymell yn gryf, mae wedi rhoi cymaint o hyder i mi.

**Beth fyddech chi'n ei ddweud wrth unrhyw un sy'n ystyried dechrau'r cwrs?**
Ewch amdani! Does gyda chi ddim i'w ennill ond llawer i'w ennill. Byddwch yn cael tiwtor gwych a fydd yn rhoi digonedd o help ac arweiniad. Byddwch yn gwneud ffrindiau newydd, yn datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn sesiynau grŵp a ddysgir, ac yn fwy na dim byddwch yn cael cymhwyster a fydd yn eich helpu i symud ymlaen yn eich gyrfa – pam pendroni?!

## Wythnos Ailgylchu 2019

A wyddech chi mai Medi'r 23ain-29ain 2019 yw Wythnos Ailgylchu 2019? Gan ddefnyddio hen boteli plastig fel Clwb Amlapiol ac Ôl-ysgol Waunarlwydd, dyma ffordd wych o ailddefnyddio sbwriel tŷ a'i droi'n rhywbeth creadigol a defnyddiol.



# Gogledd Cymru

## Canolfannau Teuluol Conwy

Mae prosiect newydd, cyffrous wedi ei ddatblygu yn ardal Conwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfle i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gymryd agwedd fwy hyblyg tuag at weithio'n wahanol a dyfeisio gwasanaethau sydd ynglŷn â dulliau o atal o ran plant a phobl eraill yn yr ardal.

**Pam?**

Mae ymchwil ddiweddar wedi dod ag atal, ac amddiffyn plant rhag effeithiau Profiadau Andwyol Plentyndod i'r wyneb. Mae hyn yn gofyn ar i bawb fod yn fwy effeithiol ynghylch ymyrraeth gynharach ym mywydau aelodau iau'r gymdeithas, gan symud y pwyslais i faes atal ac amddiffyn.

Mae nifer y plant mewn angen yng Nghonwy wedi cynyddu yn ôl 63% yn y chwe blynedd diwethaf, a bu cynnydd yn y nifer o blant y gofelir amdanynt gan yr Awdurdod Lleol, sy'n gwneud atal yn bwynt ffocws clir.

Bydd Canolfannau Teuluol Conwy yn cael nifer o wasanaethau da a fydd yn gweithio gyda'r teuluoedd i'w hatal rhag cyrraedd adegau argyfwng.

**Sut?**

Yn dilyn llwyddiant y Ganolfan Deuluol yn Abergele, mae 3 Canolfan Deuluol newydd yn cael eu datblygu ar draws y sir. Nod gwasanaeth Ymyriad Cynnar ac Atal yn y canolfannau teuluol yw cydnabod bod magu plant yn anodd, a chymryd agwedd gyfannol, gymunedol, tuag at ateb anghenion teuluoedd.

**Maen nhw'n dweud ei bod yn 'cymryd pentref i fagu plentyn' - mae Canolfannau Teuluol yn dod â'r gymuned honno at ei gilydd.**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gogledd Cymru drwy ffonio: 01492 536318,
drwy ebost: info-nw@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: 19, Princes Drive,
Bae Colwyn. LL29 8HT

## Hyfforddiant yn Teddy Bear Towers



Teddy Bear Towers oedd y derbynnydd lwcus yn rhanbarth Gogledd Cymru, a chyflenwyd y gweithdy gan Cath Smith, un o'r Swyddogion Hyfforddi yn ein swyddfa ym Mae Colwyn. Roedd 10 o blant a 2 Weithiwr Chwarae'n bresennol yn y gweithdy.

Anogwyd y plant i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau, yn cynnwys chwarae gyda gemau bwrdd Cymraeg, a gemau loto syml a fyddai'n help i ddatblygu eu defnydd o Gymraeg Achlysurol. Fe wnaethant hefyd gymryd rhan mewn gêm 'Maes Ffrwydron' Gymraeg lle 'roedd y plant yn cymryd eu tro â mwgwd dros eu llygaid, a'r gweddill y plant yn eu tywys drwy 'faes ffrwydron' (ardal â chonau'n dangos y ffordd. Roedd yn rhaid i'r plant dywys y plentyn â mwgwd drwy'r conau heb eu cyffwrdd).

Fe wnaeth y staff a'r plant wir fwynhau'r gweithdy, a'r staff yn dweud y byddent yn bendant yn rhoi rhai o'r gweithgareddau – a'r iaith sylfaenol a ddefnyddiwyd – ar waith.

A hoffech chi gynyddu'ch hyder o ran defnyddio'r Gymraeg yn eich lleoliad? A hoffech fwcio Gweithdy Clwb Cymraeg Achlysurol? Os felly, cysylltwch â Swyddfa Ranbarthol Gogledd Cymru ar 01492 536319 ar info-nw@clybiauplantcymru.org.

## Dyfarniad Lefel 3 Cache mewn Trawsnewid i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar)

LLONGYFARCHIADAU i'r 28 Gweithiwr Chwarae yng Ngogledd Cymru ar gwblhau eu Dyfarniad Lefel 3 Cache mewn Trawsnewid i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar), a ariannwyd gan siroedd Ynys Môn, Conwy a Gwynedd. Cafodd y cymhwyster ei gyflenwi dros 13 sesiwn nos, a rhoddwyd i'r dysgwyr a oedd eisoes â Lefel 3 (neu gyfwerth) yn y blynyddoedd cynnar gyfle i ennill cymhwyster mewn Gwaith Chwarae.

Dyma rai o'r sylwadau a dderbyniwyd am eu profiad o'r cwrs:

*"Roeddwn wedi fy sicrhau mai'r yr hyn yr oeddwn yn ei wneud yn y Clwb Allysgol oedd yr hyn yr oeddwn i fod i'w wneud."*

*"Fe wnes i wir fwynhau'r cwrs, a dwi wedi dysgu cymaint. Yn ei argymell yn fawr iawn."*

*"Dwi wedi dysgu lot am Waith Chwarae a'r gwahaniaeth rhwng gweithio mewn ysgol ac mewn lle chwarae."*

"Mwynheais y cwrs, gwahanol fathau o chwarae, yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, a bod mwy o gyfleoedd chwarae i'r plant."

Os oes gennych ddiddordeb yn y cwrs hwn, neu unrhyw rai o'n cymwysterau Gwaith Chwarae eraill, gofynnir i chi lenwi ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb, sydd i'w gweld ar ein gwefan http://bit.ly/CPCKC-EOI

cache
nurturing achievement



## Cinio Nerthol y Gogledd Orllewin

Bu ein Rheolwr Rhanbarth Gogledd Cymru yn bresennol mewn digwyddiad Rhwydweithio fis diwethaf, wedi ei drefnu gan Sam Maitland-Price, perchennog Meithrinfa a Chlwb Allysgol Little Lambs yn Sir Conwy.

Sam, sydd yn ysgrifennydd Rhwydwaith Gogledd-orllewin Cymru, sy'n cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn a sefydlodd y digwyddiad, ac estynnodd wahoddiad i berchnogion a rheolwyr lleoliadau meithrin sydd wedi ymrwymo i ddarparu ansawdd mewn gofal plant y blynyddoedd cynnar ac allysgol. Rhoddwyd i Sam yr her i drefnu'r digwyddiad ar gyfer y grŵp Rhwydweithio, a rhoddodd iddo'r enw 'Cinio Nerthol NDNA'!

Cynhaliwyd y digwyddiad ym Melin Book House yn Sir Ddinbych. Roedd yn gyfle cyffrous i berchnogion Meithrinfeydd Dydd a lleoliadau Allysgol, i ennill gwybodaeth ddyfnach, a dealltwriaeth, o ymddygiad, datblygiad, chwarae yn yr awyr agored a chyfle i osod eu cwestiynau eu hunain i gynrychiolydd o Arolygiaeth Gofal Cymru! Rhoddwyd hyd yn oed fagiau rhodd i bawb a fu yno, Rhoddodd y digwyddiad gyfle i ddarparwyr rannu profiadau a sefydlu llais ar y cyd i sicrhau bod awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn cael clywed eu safbwyntiau.


Dechreuodd y diwrnod â sesiwn arbennig gan Lynn Williams, a roddodd inni wybodaeth ddiddorol a phryfoclyd am Ddatblygiad yr Ymennydd ac Ymddygiad; fe'i dilynwyd gan Nathania Scyner o Dîm Datblygu Chwarae Conwy, a roddodd syniadau ysbrydoledig i ni am yr amgylchedd awyr-agored a chwarae Rhannau Rhydd.

Yna atebodd Ruth Rowlands o AGC gwestiynau, ac roedd yno hefyd gynrychiolwyr o Design to Smile, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych a'r gymdeithas meithrinfeydd-dydd genedlaethol, yr NDNA.

Daeth nifer dda dros ben ynghyd; daeth lleoliadau o Ogledd-orllewin Cymru yno a gwnaed argraff fawr arnynt, gymaint felly fel bod Sam wrthi'n barod yn cynllunio'r un nesaf ar gyfer y flwyddyn nesaf! Da iawn Sam.

Adborth o'r digwyddiad:

*'Dwi'n teimlo'i bod hi'n hynod bwysig wrth redeg busnes eich bod yn gallu rhwydweithio, trafod a gweithio gyda'ch gilydd fel lleoliadau er mwyn rhoi gofal plant rhagorol i'r cymunedau ehangach. Rhoddodd y syniad yma nid yn unig y cyfle i ni fel lleoliadau i gyfarfod a rhwydweithio, ond rhoddodd i ni'r cyfle i ofyn cwestiynau a siarad ag AGC, a dydy'r cyfle hwnnw ddim yn dod yn aml i ni. Rhoddodd hefyd gyfle i ni ddod o'r lle wedi'n hysbrydoli gan Nat a Lynn, sydd yn amlwg mor angerddol ac mor brofiadol yn eu maes. Mi fyddwn i'n annog unrhyw un nad yw'n aelod o rwydwaith i ddod yn aelod o rwydwaith lleol; mae manteision siarad ag eraill rhannu syniadau, rhannu arferion da a gallu sefydlu llais yn ein sector yn bwysig i'n galluogi i greu gwell profiadau i blant y dyfodol.'*




## Manteision Datblygu Proffesiynol Parhaus

Fel Gweithiwr Chwarae, mae hyfforddiant gorfodol y mae'n rhaid i chi ei gyflawni i barhau'n i gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ond rydym oll am gyflawni a chyflenwi mwy na'r hyn sy'n ofynnol yn unig, a dyna pam fod DPP (Datblygu Proffesiynol Parhaus) mor bwysig.

Mae hyd yn oed Swyddogion Hyfforddi Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn mynychu sesiynau chwarae yn rhan o'u DPP, gan eu galluogi i weld eraill wrth eu gwaith, dysgu sgiliau newydd ac ennill syniadau newydd, a gallant eu rhannu gyda chi pan fyddwch yn mynychu ein hyfforddiant.

Fel Gweithwyr Chwarae, gwyddom eich bod am ddarparu'r profiad chwarae o'r ansawdd gofal i'r plant yn eich gofal, a'ch bod yn gwybod am bwysigrwydd gosod plant yng nghanol y broses chwarae, gan roi iddynt y gallu i ddewis yn rhydd a hunan-gyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Weithiau gall fod yn anodd creu profiadau newydd, a dyna pam fod mynychu cyrsiau a gweithdai'n syniad da.

Nid yw DPP ynglŷn â mynychu cyrsiau hyfforddi yn unig, gellir cyflawni hyn drwy ymweld â lleoliadau eraill. Bydd hyn yn rhoi'r gallu i chi ennill dealltwriaeth newydd a phrofi syniadau newydd o leoliadau Gwaith Chwarae eraill. Efallai fod hyn yn rhywbeth yr hoffech ei drefnu gyda lleoliad arall, rhywbeth tebyg i ymweliad cyfnewid. Gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs helpu i hwyluso hyn drwy'ch cysylltu â lleoliadau eraill a allai fod â diddordeb. Cysylltwch os gallwn eich helpu!



## Cymraeg Achlysurol

Yn rhan o'n prosiect Cymraeg Gwaith, sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd, dewiswyd 3 chlwb i wahanol fannau o Gymru, ar hap, i dderbyn gweithdy Cymraeg Achlysurol. Nod y gweithdy yma yw goresgyn y pethau sy'n rhwystro Gweithwyr Chwarae rhag defnyddio Cymraeg sylfaenol yn eu lleoliadau. Mae'r gweithdy'n helpu i gefnogi a datblygu hyder a sgiliau Gweithwyr Chwarae ac yn edrych ar sawl adnodd chwarae y gellid eu defnyddio yn y lleoliad i helpu i hyrwyddo'r Gymraeg.

CYMRAEG
Dysgu
Learn



# De Ddwyrain Cymru

## Arian, Arian, Arian!

Llongyfarchiadau i enillwyr Iwcus gweithdai a ariannwyd gan Santander yn Ne Ddwyrain Cymru (gwelwch y Tudalen Prosiectau am fwy o fanylion). Cafodd pedwar clwb yng Nghasnewydd, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful weithdai i'w helpu i drefnu digwyddiadau codi arian, a'r plant yn dysgu sut i gyllidebu, cofnodi gwybodaeth ariannol a marchnata digwyddiad. Cafodd yr holl blant syniadau llawn cyffro ar sut i godi arian, o Ddydd Hwyl i noson theatr. Bydd y Clybiau'n cynnal eu digwyddiadau codi arian yn ystod Tymor yr Haf. Rydym yn dymuno pob lwc i'r holl glybiau ac yn gobeithio y bydd y plant yn llwyddo yn eu hymdrechion codi-arian!

## Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf

Bu clybiau yn RhCT yn ddigon ffodus i dderbyn adnoddau Cymraeg am ddim gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Yn eu pecynnau yr oedd posteri, llyfrau, pedair gêm gyffrous a jig-so arall. Roedd y clybiau i gyd yn llawn cyffro ac awydd i ddechrau defnyddio'r rhain mewn sesiynau i helpu i wella eu Cymraeg, ac wrth i'r Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant fynd ar ymweliadau mae'n gweld y posteri ar y waliau'n rheolaidd, a'r gemau'n mynd rhagddynt go iawn! Mae'n hyfryd gweld pawb yn rhoi cynnig ar Gymraeg! Da Iawn RhCT!

Yn rhan o'n prosiect 'Welsh Now in a Minute' rydym yn annog lleoliadau i ddechrau defnyddio ymadroddion syml mewn clybiau. Mae ein tîm iaith-Gymraeg yn gweithio'n gale di gael adnoddau a fydd o help at ei gilydd i gefnogi'r clybiau i wneud hyn. Beth am fynd i'n tudalen prosiectau, www.clybiauplantcymru.org/projects, neu ein tudalen Facebook, www.facebook.com/clybiau, i wybod mwy?



### Angen cysylltu â ni?

Cewch gysylltu â Thîm De Ddwyrain Cymru
drwy ffonio: 029 2074 1000,
drwy ebost: info@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf,
Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW

## Funstation – gwneud amser bwyd yn amser hwyl!

"Yn 2015 daeth Funstation yn ymwybodol o Wobr Bwyta'n Iach Safon Aur Caerdydd a'r Fro. Golyga hyn gael portfolio gwobr byrbrydau yn cynnwys polisi cyfamserol ar fwyta'n iach, bwydlen byrbrydau ac adborth gan rieni.

Rhaid i blant olchi'u dwylo'n drwyadl cyn bwyta, a dylid defnyddio platiau addas (rydym ni'n defnyddio platiau papur tafladwy). Anogir plant i eistedd hyd ddiwedd y byrbryd.

Pan ymwelwyd â Funstation gan Arolygwr, sef Deietegydd Teuluoedd yn Gyntaf, i gael ein hasesu ar gyfer y wobr, roeddem yn bwyta y tu allan i'r adeilad, ad yn eistedd ar y llawr gan nad oes gennym ddigon o fyrddau a chadeiriau i'w defnyddio y tu allan. Yn anffodus, dywedodd, fe wnaethant fethu â chyrraedd y meini prawf i gael y wobr oherwydd bod y plant yn eistedd ar y llawr, ac roeddem wedi defnyddio jèl llaw gan feddwl y byddai hyn yn iawn i'w ddefnyddio gan y plant. Ar y diwrnod canlynol, ysgrifennodd Jane Pruett, a oedd yn ddirprwy reolwr, ac sydd yn awr yn rheolwr, at Claire yn awgrymu y gellid defnyddio blancedi picnic. Fel Gweithwyr Chwarae teimlwn na ddylai amser byrbryd fod yn rhy gaeth ac y dylai'r plant deimlo ei fod yn dal yn rhan o'u hamser chwarae.

Dywed y Cwricwlwm Gwaith Chwarae y dylem fod ag opsiynau eraill ac yn cynnig dewisiadau; mae cael picniciau yn yr awyr agored yn opswn hwyliog i'r plant.

Trafododd Claire yr awgrym hwn gyda grŵp gweithredu'r Wobr Byrbryd Iach Safon Aur, sy'n grŵp o Ddeietegwyr, Gweithwyr Chwarae, Athrawon a Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, a oedd yn cytuno ag awgrym Jane cyhyd â bod trefn arbennig yn dilyn, yn cynnwys rhestr lanhau yn ei lle ar gyfer y matiau.

Yn 2017 awgrymodd Jane y dylid dileu'r arian o gymryd ffotograffau, eu hargraffu a'u rhoi mewn ffolder i helpu'r amgylchedd. Roedd yr Arolygwr a'i th6im yn falch o weld ffotograffau ar ffôn neu dabbled cyhyd â bod modd i'w cyrchu, megis drwy Facebook, i rieni.

Rydym bob tro'n cael ymateb da gan blant sy'n



gweld ein byrbrydau. Mae amrywiaeth dda o ffrwyth ar gael yn ddyddiol; afalau gwyrdd a choch, grawnwin, plwms, orennau neu orennau clementin; gellyg, bananas a ffrwyth ciwi. Rydym hefyd yn darparu ffrwythau o wledydd pell bob hyn a hyn, megis mango a ffrwyth y ddraig.

Os oes gennym gracyrs, lapiau, bara pita neu fara, mae gennym bob tra blât o salad, llysiau, ham, cyw iâr a chaws.

Weithiau rydym yn cael prydau lle nad oes llysiau'n cael eu cynnig, ond mae ffrwyth i'w gael ar gael YN DDI-FFAEL, bob dydd.

Defnyddir llaeth hanner-sgim a dŵr … dim sudd ffrwythau na ddiodydd ffrwyth. Mae'r plant yn mwynhau gwneud eu dyfroedd blas eu hunain gan ddefnyddio lemonau, leimiau a ffrwythau eraill.

Bron bob dydd bydd plant yn rhedeg i fyny atom ac yn gofyn "beth sy' 'na am bryd bach?" yna'r dwrn i'r awyr pan gaiff wybod, ac os nad yw plentyn yn fodlon caiff gynnig o rywbeth arall."

*Clwb Ôl-ysgol Funstation*

### Seren Mawr yn agor yng Nghasnewydd

Yn ôl ym mis Hydref 2018 derbyniodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs alwad ffôn gan Ysgol Gynradd Glasllwch yn holi ynghylch agor Clwb Brecwast i ateb anghenion rhieni yn yr ysgol. Ymwelodd Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Casnewydd â'r ysgol a thrafod gyda nhw'r opsiynau a oedd ar gael. Roedd rhieni plant yr ysgol eisoes wedi bod at y llywodraethwyr i ddweud eu bod am gael Clwb Brecwast yn yr ysgol, ac roeddem yn barod i dalu am ei ddefnyddio er mwyn galluogi'r clwb i aros ar agor yn ddigon cynnar i fodloni eu hanghenion fel rhieni sy'n gweithio.

Gweithiodd y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yn agos gyda'r ysgol i sefydlu sut yr hoffent i'r Clwb weithio, ac yn Nhachwedd gofynnwyd i'r Darparwyr Gofal Plant Allysgol presennol yng Nghasnewydd a hoffent gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb i'r ysgol er mwyn sefydlu'r Clwb Brecwast. Erbyn Rhagfyr, roedd Meithrinfa Greenfields, sydd wedi ei lleoli yn Y Tŷ Du, wedi eu hysbysu gan yr ysgol mai nhw oedd yr ymgeisydd llwyddiannus.

Gyda chefnogaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a'r ysgol ei hun, cyfarfu perchennog Greenfields Nursery gyda rhieni i drafod sut y byddai'r clwb yn rhedeg er mwyn gwneud yn siŵr y gallai'r hyn a fyddai'n cael ei sefydlu'n ateb anghenion y gymuned leol.

Ar Ddydd Llun, Mawrth 4ydd agorodd Clwb Brecwast Seren Mawr yn Ysgol Gynradd Glasllwch, a hyd yma mae'r lefelau presenoldeb yn dda. Dymunwn bob lwc i chi yn eich menter fusnes newydd!



## Dweud Storïau ym Merthyr Tudful

Ym mis Mawrth ariannodd Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i gyflenwi cyfres o Weithdai Dweud Stori mewn Ysgolion Cynradd a Chlybiau Gofal Plant Allysgol ar draws y sir. Cafodd cyfanswm o 4 ysgol gynradd a 3 chlwb gofal plant allysgol weithdai, ac oedrannau'r plant sy'n cymryd rhan yn amrywio o 4 i 10 mlwydd oed.

Hyrwyddodd y Gweithdai Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n datgan:

- Bod partïon yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a hamdden, i fod ynglŷn â chwarae a gweithgareddau difyrrol sy'n briodol i oed y plentyn, ac i gyfranogi'n rhydd yn y bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.
- Bod yn rhaid i bartïon barchu a hyrwyddo hawl y plentyn i gyfranogi'n llawn mewn bywyd diwylliannol ac artistig, a bydd yn annog darparu cyfleoedd priodol a chyfartal ar gyfer gweithgaredd diwylliannol, artistig, difyrrol a hamdden.

Aeth ein Swyddogion Hyfforddi brwdfrydig i'r lleoliadau yn cario bocs o offer, yn cynnwys disiau stori a phypedau. Anogwyd y plant i ddatblygu eu storïau eu hunain a rhoi rhwydd hynt i'w dychymyg.

Roedd pob sesiwn yn llawn chwerthin ac yn cynnwys amrediad o weithgareddau'n annog cyfranogi, creadigrwydd a chynhwysiad. Cafodd plant y cyfle i fynegi eu hunain wrth edrych yn ddyfnach i'w hawl i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a difyrrol, y cyfan yn hanfodol i Erthygl 31.

Diolch i'r holl blant, yr ysgolion a'r Clybiau Gofal Plant Allysgol a gymerodd ran; gwnaethoch y gweithdai'n rhai pleserus iawn!

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu gweithdy Dweud Stori (neu un o'n dewis o weithdai eraill) cysylltwch â ni:

029 2074 1000
info@clybiauplantcymru.org

## Marchnata Llwyddiant yn Darren-las!

Wrth i blant fynd yn hŷn, maen nhw'n cael mwy o gyfrifoldeb ac yna does dim angen iddyn nhw fynychu Clwb Ôl-ysgol yn gyson. Gall hyn gael effaith ar y nifer cyfan o blant sy'n mynychu'r clwb, ac felly ei gynaliadwyedd. Yng Nghlwb Ôl-ysgol Darren-las yn RhCT, arweiniodd lleihad yn y nifer o blant yn bresennol y Rheolwr i adolygu eu strategaeth farchnata, a dyna pam wnaethon nhw ddechrau cyflwynol 'nosweithiau gweithgaredd'. Aeth y staff ati gyda'i gilydd i feddwl a dechrau cynllunio sesiynau a thema, o bicnic tedis i noson gwneud eich pizza eich hun. Yn gysylltiedig â hyn gwnaethant lunio taflenni i dargedu grŵp blwyddyn wahanol bob wythnos yn hyrwyddo'r nosweithiau yn y clwb. Wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaen aethant yn brysurach, hyd nes 'roedd yn rhaid iddyn nhw wrthod archebion! A thri aelod newydd ar y staff mae'r clwb yn ferw ar nosweithiau gweithgaredd a dydyn nhw heb edrych yn ôl ers hynny!

Da iawn Darrenlas!

# Hyfforddi Am Ddim i Weithwyr Chwarae

Dyfarnwyd arianni i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs drwy Fagiau Cymorth Tesco er mwyn rhoi hyfforddiant am ddim i Weithwyr Chwarae, a'r holl hyfforddi'n digwydd yng Nghaerffili. Bwciwch eich lle yn awr, drwy ein gwefan, i osgoi cael eich siomi. www.clybiauplantcymru.org/training-events

**Bydd pob dyddiad ar Ddydd Sadwrn yn cynnwys bwffe am ddim i'r rhai'n bresennol!**

### Hyfforddiant Diogelu Sylfaenol Cymru Gyfan

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg, 2019
9:30yb – 4:30yh
Neuadd Gymunedol Bedwas a Thretomas I

Mae'r cwrs wedi ei ddyfeisio er mwyn cyfleu gwerthoedd ac egwyddorion sylfaenol o ran diogelu unigolion ac i roi i'r sawl sy'n darpau gofal neu gefnogaeth gyda'r elfennol, sylfaenol. Disgwylir y bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn ymgymryd â mwy o hyfforddiant a dysgu sy'n berthnasol i'r unigolion y maent yn eu cefnogi, boed yn blant neu'n oedolion.

### Chwarae Allan gyda'r Elfennau

Dydd Mercher, Medi 14eg 2019
9:30yb – 4:30yh
Neuadd Gymunedol Bedwas a Thretomas

Mae'r gweithdy hwn yn cyflwyno cyfranogwyr i'r elfennau, daear, aer, tân a dŵr fel ysgogwyr i chwarae plant. Bydd cyfranogwyr yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer chwarae awyr-agored gyda'r elfennau i blant; byddant yn dysgu am y cysyniad o gynnig-ei-hun, yn edrych ar y buddiannau a'r rhwystrau sy'n atal darparu chwarae awyr-agored gyda'r elfennau a phrofi sut i wneud asesiad rig-budd ar gyfleoedd chwarae awyr-agored plant yn ogystal â phrofi gweithgareddau hwyliog y gellir eu hail-wneud yn eu lleoliadau eu hunain.

### Adeiladu Deniau

Dydd Iau, Medi 19eg 2019
6:30yh – 8:30yh
Man cyfarfod – i'w gadarnhau

Cyflwyno cyfranogwyr i adeiladu deniau drwy gyfrwng gweithgareddau ymarferol. Mae'r gweithdy'n cynnwys adeiladu deniau yn yr awyr agored a syniadau y gallwch eu defnyddio pan fyddwch yn adeiladu den yn eich lleoliad eich hunain, gan ddefnyddio pethau pob-dydd. Ar y cwrs byddwch y tu allan am gyfnod o amser ym mhob tywydd, felly mae dillad addas yn hanfodol.

### Streips Tebyg, Sawl Ffordd

Dydd Mawrth Medi 24ain 2019
6:30yh – 9:00yh
Man cyfarfod – i'w gadarnhau

Mae'r cwrs hwn ar gyfer gweithwyr Gofal Plant sy'n cefnogi plant sydd ar y sbectrwm awtistiaeth. Bydd y cwrs hwn yn rhoi i weithwyr Gofal Plant ymwybyddiaeth o ymddygiad personol, amgylcheddau a thanwyr sy'n gallu effeithio ar ymddygiad unigolion ar y sbectrwm awtistiaeth, gan ddarparu erfyn sylfaenol a fydd yn eich galluogi i ddatblygu a rhoi ar waith strategaethau i gefnogi ymddygiad sy'n heriol.

### Diwrnod Hyfforddi Gweithwyr Chwarae – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg – ac Iechyd

Dydd Sadwrn Hydref 12fed 2019
9:30yb – 4:30yh
Neuadd Gymunedol Bedwas and Threthomas

Mae hwn yn ymgorffori 3 o'n gweithdai poblogaidd, hwyliog ac ymarferol: Dim ond Dŵr, Pwlis a Phethma ac Yn Gyforiog o Gemau.
Dim ond Dŵr: Profwch Wyddoniaeth gyda'r gweithdy hwn sy'n llawn o weithgareddau hwyliog, ar y thema, dŵr. Mynnwch wybod sut mae'r arbrofion gwyddonol yn y gweithdy hwn yn effeithio arnom yn ein bywydau bob dydd.
Pwlis a Phethma: Profwch y grymoedd a'r ynni sydd mewn Gwyddoniaeth yn y gweithdy yma sy'n llawn o weithgareddau llawn gwybodaeth a hwyl.
Yn Gyforiog o Gemau: Mae'r gweithdy hwn yn darparu llu o syniadau ar gyfer hyrwyddo gemau mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol ac yn hyrwyddo manteision gweithgaredd corfforol, cyfathrebu a meithrin tîm.

### Hawliau a Chyfranogaeth Plant

Dydd Sadwrn Tachwedd 9fed 2019
9:30yb – 4:30yh
Neuadd Gymunedol Bedwas a Thretomas

Mae Hawliau a Chyfranogaeth Plant wrth galon pawb sy'n gweithio gyda phlant. Mae'n hanfodol fod Gweithwyr Chwarae'n rhoi ar waith eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfranogaeth plant. Cyfle i ddatblygu ffyrdd newydd a phleserus o ymgynghori a rhoi adborth wrth weithio gyda phlant.

# Hyfforddiant




## Hwyl yn y Dwnjwn

Ym mis Ebrill roedd yn bleser maer gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i gael gwahoddiad i 'Ŵyl Lenyddol Lledaenu'r Gair' ym Merthyr Tudful.

Mae Gŵyl Lledaenu'r Gair wedi bod yn rhedeg ers 6 blynedd, tra bu'n tyfu'n rhyfeddol o gyflym, ac erbyn hyn mae'n cynnal dros 70 o stondinau ac atyniadau, ynghyd â 3,500 o blant ysgol o Ferthyr Tudful a'r ardaloedd o gwmpas, ac roedd hefyd ar agor i'r cyhoedd.

I ymgorffori ethos llenyddiaeth i'r gweithgareddau, bu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn ddigon ffodus i gael copïau o lyfr stori Play Wales, "Hwyl yn y Dwnjwn",sy'n edrych ar hawl pob plentyn i gael chwarae. Ysgrifennwyd y llyfr mewn partneriaeth â phlant ysgolion cynradd er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

Fe wnaethom hwyluso gweithdai i blant ac athrawon o ysgolion ym Merthyr Tudful, lle gwnaethom ddarllen drwy'r llyfr stori a'u cael i edrych i mewn i ystyr y stori a phwysigrwydd chwarae ym mywydau plan (ac oedolion).

Yn dilyn hyn fe wnaethom wahodd y plant i chwarae yn ein 'dwnjwn' arbennig ein hunain, yn llawn dim ond bocsys cardfwrdd a thâp gludiog (a pheniau lliwio i'r rhai mwy artistig). Rhoddodd hyn gyfle i'r plant ymchwilio i chwarae mewn amgylchedd a oedd yn amddifad o deganau confensiynol, gan arddangos pwysigrwydd, effaith a Rhannau Rhydd mewn chwaraei'r athrawon a'r staff cefnogi.

Roedd yr amrywiaeth o chwarae a ddigwyddodd yn rhyfeddol i'w wylio, a rhai plant i ddechrau ddim ond am glatsio'r bocsys â thiwbiau neu esgus ymladd â chleddyfau cyn datblygu'r chwarae hwn i adeiladu caerau a chestyll. A dechreuodd eraill drwy adeiladu eu deniau eu hunain cyn ymuno â ffrindiau i adeiladu strwythurau mwy, gan arddangos gwaith tîm a sgiliau datrys problemau i gael y canlyniadau yr oedden nhw eu heisiau.

## Mae angen Pac Offer ar bawb

Dawn Bunn, Rheolwr Hyfforddi Cenedlaethol

Dwi wedi bod yn ymchwilio i waith Hendry a Kloep (2002) yn ddiweddar, a'r model gydol-oes, sy'n ystyried sut y mae profiadau newidiol ym mywyd person yn effeithio ar eu llesiant. Mae'r ddamcaniaeth yn awgrymu bod gan bob person adnoddau mewnol sy'n eu galluogi i ymdopi â heriau a bod angen cefnogaeth i sicrhau nad yw'r rhain yn cael eu dihysbyddu. I alluogi plant i ymdopi â sialensiau mae angen i ni fod yn defnyddio cyfleoedd i atgyfnerthu eu gwytnwch a rhoi'r dulliau a'r mecanweithiau iddynt oresgyn gofid.

O oed cynnar mae chwarae plant yn eu dysgu sut i chwilota yn eu man chwarae, datrys problemau a delio â methiant; drwy roi i blant cyfleoedd am chwarae cyfoethog, rhoi clod i'r ymdrech yn hytrach na'r canlyniad, trwy ganolbwyntio ar fod yn rhywun yn hytrach na dod yn rhywun, rydym yn helpu plant i feithrin gwytnwch. Mae gwytnwch yn annog plant i roi cynnig arall arni ac yn cyfyngu ar y teimladau negyddol sy'n codi pan brofir methiant.

Mae chwarae, a'r gefnogaeth a roddir gan Weithwyr Chwarae, nid yn unig yn galluogi plant yn y tymor byr i oresgyn heriau, y mae hefyd yn rhoi grym i gynorthwyon eraill sy'n eu helpu i dyfu'n oedolion. Mae gwytnwch a datrys problemau'n llwyddiannus yn annog plant i asesu risg a dewis yn glyfar, a cheisio profiadau newydd, datblygiadol a phrofiadau bwyd, tra cynhyrchir ar yr un pryd hormonau teimlad-da sy'n ategu at lesiant.

Daeth Hendry a Kloep (2002) i'r casgliad fod pobl, wrth fod â dewis eang o ddulliau ac adnoddau i'w helpu i oresgyn brwydrau mewnol ac allanol, yn teimlo'n fwy sicr o'u hunain ac mae cynnydd yn neu hunan-dyb. Pan fod pac offer person wedi'i ddihysbyddu maent yn y pen draw yn teimlo'n ansicr ac yn brin o'r hyder a'r gallu i symud ymlaen; yna gall hun amlygu ei hun wrth i berson ddod yn encilgar a heb gymhelliad, neu drwy ymddwyn yn negyddol neu wneud dewisiadau gwael. Mae'n hollbwysig wrth weithio gyda phlant ein bod ni'n ystyried yr holl ffactorau a allai fod yn achosi i blentyn ymateb mewn ffyrdd arbennig, ac adlewyrchu ar a oes angen i ni ddarparu ymatebion o ran chwarae sy'n eu hannog, nid i newid eu hymddygiad, ond i adeiladu eu hyder, eu gwytnwch a'u llesiant eu hunain, a all wedyn olygu newidiadau personol ystyrlon sy'n eu cefnogi, nid yn unig yn y tymor byr, ond yn nes ymlaen, a gydol eu hoes.

Yn olaf, ga' i bwyso arnoch i gofio bod y model gydol oes yn berthynol i bobl, ad nid plant yn unig, ac i'r un graddau ag y mae profiadau bywyd plentyn yn effeithio ar eu teimladau o ddiogeledd, mae oedolion hefyd yn agored i deimladau o orbryder. Mae angen pac offer o fath arall ar Weithwyr chwarae, un sy'n cynnwys hyfforddiant, profiad a chefnogaeth sy'n eu grymuso i ateb anghenion newidiol y diwydiant a'r plant, heb y straen sy'n gysylltiedig â dim syniad o beth i'w wneud. Mae angen y cyfle arnynt i adlewyrchu ar eu gwrthdaro mewnol a'i ddatrys, a bod â mecanweithiau yn eu lle fel y gallant weld her fel cyfle i dyfu yn hytrach na phroblem a fydd yn eu cadw nhw, y clwb, neu'r plant yn eu gofal, heb symud ymlaen. Er na fyddai staff efallai dangos eu bod mewn cyfnod pryderus o'r model gydol oes, gall cydweithiwr nerfus, neu heb gymhelliad olygu gwaith anghynhyrchiol, ac mae aelod hyderus o'r staff yn un cynhyrchiol ac ymroddedig.

Am fwy o wybodaeth am y model gydol oes mynnwch weld: Lifespan Development; Resources, Challenges and Risks, Hendry a Kloep 2002

Am fwy o wybodaeth ar sut i gefnogi'ch staff i deimlo'n fwy hyderus yn eu rôl, gweler ein Cyfarwyddiadur Hyfforddiant, lle cewch wybodaeth ar gyrsiau unigol a'r Pac Offer llawn - y cyfan ar gael ar y wefan, www.clybiauplantcymru.org



# Chwarae'n Esblygu

Mae Bob Hughes yn Ddamcaniaethwr Gwaith Chwarae adnabyddus, a chanddo nifer o edmygwyr (a Bev, ein Swyddog Hyfforddi, yn enwedig yn un ohonynt); ef a roddodd i ni'r ddamcaniaeth o Fathau o Chwarae yn ôl yn 1996. 'Nôl yn y presennol, 23 mlynedd, gredwch chi, yn ddiweddarach, er y pery'r gred fod y mathau hyn yn 'ddull dadansoddi natur y gwaith, a'u bod yn cynnig iaith gyffredin y gellir ei defnyddio i wneud hynny', tybed a yw hi'n amser i'w diweddaru.

A hyn o bryd cydnabyddir 16 math o chwarae yn y maes Gwaith Chwarae, sy'n 'arddangos rhychwant a chymhlethdod y swydd', a chwarae ei hun, ond a chwarae'n esblygu a datblygu'n gyson mae mwy o fathau o chwarae y gellir eu hychwanegu.

**E-Chwarae:** galluogi plant i gyrchu profiadau chwarae drwy gyfrwng dulliau electronig yn unigol neu mewn grwpiau. Gall plant gael eu trwytho yn y math hwn o chwarae, a gallai ddod yn gymhelliad allanol yn hytrach na chymhelliad mewnol.

**Chwarae Ffad:** galluogi plant i gyrchu chwarae sy'n trendio lle mae'n nhw'n defnyddio cyfarpar, neu nhw eu hunain, i gymryd rhan yn y ffad am ba hir bynnag y pery; e.e. gemau Pog, fidget spinner, sleim, a dabio.

Chwarae heb ymrwymo: galluogi plant i chwilota yn yr amgylchedd heb eu gorfodi i ymrwymo i weithgaredd neu ardal, sy'n cael ei arddangos yn fwy, efallai, gan blant sy'n newydd i leoliad.

**Gwrth-Chwarae:** galluogi plant i gyrchu ymddygiad lle gallant fod yn erbyn eisiau cael eu gweld yn chwarae oherwydd pwysau o du cyfoedion, oed neu arferion cymdeithasol eu grŵp cyfoed.

Chwarae Adlewyrchol: galluogi plant i gyrchu gwybodaeth a phrofiad personol, a rhoi amser iddynt adlewyrchu ddim ond drwy adael llonydd iddynt.

Ar yr un pryd ag edrych a oes lle i ychwanegu at y mathau o chwarae, a oes hefyd resymu y tu ôl i gyfuno mathau tebyg o chwarae?

A ellid cyfuno dramatig a chymdeithasol-ddramatig, ffantasïol a dychmygus? A ydyn nhw'n debyg? Neu a ydym eu hangen o hyd i ddifynio'n glir a gwahaniaethu o ran cymhlethdod y chwarae a welwn o ddydd i ddydd?

A ydych wedi gweld unrhyw chwarae arall y teimlwch y gellid ei ychwanegu fel math o chwarae? Byddai'n dda iawn gennym wybod am eich profiadau a beth rydych yn ei feddwl o'r mathau o chwarae. Ebostiwch info@clybiauplantcymru.org neu dowch i gysylltiad drwy ein tudalen Facebook www.facebook.com/clybiau

# Diwrnod ym mywyd Rhan Rydd


Mae ailddefnyddio teiars fel rhan o chwarae nid yn unig yn dda o ran adnoddau ar gyllidebau bach, y mae hefyd yn gymorth i'r amgylchedd; mae teiars yn cymryd amser hir i ddadelfennu mewn safle tirlenwi felly mae eu defnyddio fel rhan rydd neu ran o'ch man chwarae rydych yn cyfrannu at les yr amgylchedd.

Rhai syniadau am ddefnyddio teiars mewn man chwarae ac fel rhannau rhydd

- Cyrsiau Rhwystro
- Prosiectau Gardd
- Pyllau tywod a Chwarae Dŵr


Tips ar ailddefnyddio teiars yn ddiogel mewn mannau yn yr awyr agored

- Pan fyddwch chi'n cyflwyno teiars i'r man chwarae gwiriwch y teiars yn drylwyr gan ddefnyddio menig er mwyn gwneud yn siŵr nad ydynt yn cynnwys pethau miniog a allai fod yn beryglus, cyn i'r plant chwarae â nhw.
- Paentiwch y teiars â chot waelod sylfaenol, glos ar y tu allan er mwyn cwtogi ar faint o ddu a gaiff ei drosglwyddo i ddillad.
- Os ydych yn defnyddio teiars ar gyfer chwarae yn yr ardd neu mewn tywod, mae'n syniad da i leinio'r tu mewn i ddechrau ag ychydig o ddeunydd hesian fel y gallwch ei dorri yn ôl y maent; bydd hyn yn gadael i'r dŵr ddraenio.
- Cofiwch ystyried y tywydd bob tro - os ydych yn chwarae y tu allan ar ddiwrnod poeth, gall arwynebeddau teiars fynd yn rhy boeth i'w cyffwrdd, a gallent fod yn anniogel i'r plant chwarae â nhw ar y diwrnod hwnnw.













# Clybiau Gofal Plant Allysgol Gwirfoddol

Mae Clybiau Gofal Plant Allysgol wrth galon sawl cymuned, gan alluogi rhieni i weithio/hyfforddi, hybu tyfiant economaidd, trechu tlodi a rhoi amgylchedd diogel ac ysgogol i blant. Mae tua 40% o Glybiau Gofal Plant Allysgol yng Nghymru yn cael eu rheoli gan bwyllgorau sy'n cael eu rheoli'r wirfoddol. Gall bod yn rhan o bwyllgor fod yn llawn mwynhad ac yn werth ei wneud, gan roi cyfleoedd i roi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned drwy gynnig eich arbenigedd a hefyd i ddatblygu sgiliau newydd a all hwyluso dychwelyd i fyd gwaith neu addysg.

Mae Clybiau sy'n cael eu rhedeg yn wirfoddol yn bodloni angen cymdeithasol, gan gyflenwi gwasanaethau pwysig i'r gymuned, yn enwedig yn y rhai ardaloedd tlotaf. Golyga hyn y gall Clybiau gael eu rheoli/eu harwain gan aelodau o'u cymunedau eu hunain a rhanddeiliaid a chedwir yr elw i ateb anghenion y teuluoedd a'r gymuned y maen nhw'n ei wasanaethu. Mae modd i glybiau sy'n cael eu rhedeg yn wirfoddol gael hyd i ariannu i gadw ffioedd yn fforddiadwy/dechrau mentrau newydd ar gyfer eu cymunedau.

## Beth rydym yn ei wneud

- Penderfynu ar ein nodau/amcanion – pam yr ydym yma
- Cynllunio ar gyfer y dyfodol
- Bod yn ymwybodol o'n dyletswyddau cyfreithiol a'r polisi a'n lluniodd
- Monitro a gwerthuso ein gwasanaeth
- Goruchwylio materion ariannol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol. Sicrhau bod yr asedau'n cael eu defnyddio i weithredu ein nodau a'n hamcanion.
- Recriwtio a rheoli staff/gwirfoddolwyr; bod yn gyflogwr cyfrifol a deall a pharchu'r berthynas rhwng pwyllgor a staff
- Rheoli ein delwedd gyhoeddus
- Recriwtio a sefydlu aelodau newydd o'r pwyllgor
- Mynychu cyfarfodydd rheolaidd a chynhyrchiol, dilyn ein cyfansoddiad ac ymddwyn gyda gofal a sgil rhesymol.



Beth yw cyfrifoldebau aelodau pwyllgor?
Mae pwyllgor yn grŵp o unigolion sydd â chyfrifoldeb rheoli cyffredinol dros gyfundrefn, yn diwallu ei rwymedigaethau cyfreithiol ac yn gweithredu'n effeithlon ac yn ôl dogfen lywodraethol y gyfundrefn.

**Cysylltwch â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs am wybodaeth bellach: Nytiau a Bolltau, ein cit offer penodol i bwyllgorau rheoli gwirfoddol Clybiau Gofal Plant Allysgol; mae'n cynnwys: Adeiladu Gwell cyfarfodydd; Polisi ar Waith, Recriwtio Aelodau Pwyllgor; Rolau a Chyfrifoldebau; Cynllunio Strategol; Y Pwyllgor fel Cyflogwr.**

# Cynnydd yng nghyfraniadau ymrestru awtomatig

Cynyddodd yr isafswm cyfraniadau yr ydych chi a'ch staff yn talu i mewn i gynllun pensiwn ymrestru awtomatig eich gweithle ar 6 Ebrill 2019. Cyfeirir at y broses hon fel un 'mewn camau'.

Eich cyfrifoldeb chi fel cyflogwr yw gwneud yn sicr bod y codiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith.

**I bwy mae hyn y gymwys?** Rhaid i bob cyflogwr sydd â staff mewn cynllun pensiwn ar gyfer ymrestru awtomatig gymryd camau i wneud yn sicr fod y lleiafswm symiau o leiaf yn cael eu talu i mewn i'w cynllun pensiwn. Mae hyn yn gymwys i chi p'un a wnaethoch sefydlu cynllun pensiwn ymrestru awtomatig neu benderfynu defnyddio cynllun sy'n bodoli eisoes.

Fodd bynnag, nid oes angen i chi gymryd unrhyw gamau pellach os nad oes gennych staff mewn cynllun pensiwn ar gyfer ymrestru awtomatig, neu os ydych eisoes yn talu dros y symiau isaf uwch.

Os ydych yn defnyddio cynllun pensiwn â buddiannau diffiniedig nid yw'r codiadau'n gymwys.

**Beth yw'r codiadau?** Mae'r tabl isod yma'n dangos y lleiafswm cyfraniadau y mae'n rhaid i chi eu talu, a'r dyddiadau y mae'n rhaid iddynt gynyddu:

| Dyddiad | Cyfraniad isaf y cyflogwr | Cyfraniad staff | Cyfanswm y cyfraniadau isaf |
|---|---|---|---|
| Cyfradd newydd: O Ebrill 6 2019 ymlaen | 3% | 5% | 8% |
| Cyfradd flaenorol: O 6 Ebrill 2018 i 5 Ebrill 2019 | 2% | 3% | 5% |

Yn ôl y gyfraith rhaid talu cyfanswm o gyfraniadau isaf i mewn i'r cynllun. Rhaid i chi, y cyflogwr, wneud y cyfraniad cyflogwr lleiaf tuag at y swm hwn a rhaid i chi a'ch aelod staff wneud dalu'r gwahaniaeth.

Os penderfynwch chi dalu'r cyfanswm o gyfraniad isaf gofynnol, ni fydd yn rhaid i'ch staff dalu o gwbl.

Bydd y swm y byddwch chi a'ch staff yn talu i mewn i'ch cynllun pensiwn yn amrywio, yn dibynnu ar y math o gynllun yr ydych wedi ei ddewis a rheolau'r cynllun hwnnw. Gall cyfraniad eich staff hefyd amrywio, yn dibynnu ar y math o ostyngiad treth sy'n cael ei roi gan eich cynllun chi. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth yma yn nogfennau'r cynllun, a anfonwyd atoch pan wnaethoch sefydlu'r cynllun pensiwn, neu gallwch siarad â'ch darparydd pensiwn.

Mae'r mwyafrif o gyflogwyr yn defnyddio cynlluniau pensiwn lle y bydd yn ofynnol, o Ebrill 2019, i dalu cyfanswm cyfraniad isaf o 8%. Seilir y cyfrifo ar gyfer y math hwn o gynllun ar amrediad penodol o enillion. Mae'r amrediad hwn rhwng £6,136 a £50,000 y flwyddyn (£512 a £4,167 y mis, neu £118 a £962 yr wythnos) yn y flwyddyn dreth 2019/20. Adolygir y ffigurau hyn bob blwyddyn gan y llywodraeth.

Pan fyddwch yn cyfrifo cyfraniadau am y math yma o gynllun rydych yn cynnwys y canlynol:

- cyflog
- cyflogau
- comisiwn
- taliadau bonws
- goramser
- tâl salwch statudol
- tâl mamolaeth statudol
- tâl tadolaeth statudol arferol neu ychwanegol
- tâl mabwysiadu statudol

**Beth sydd angen i chi ei wneud**
Eich cyfrifoldeb chi, o dan Ddeddf Pensiynau 2008, yw gwneud yn siŵr fod y cyfraniadau isaf cywir yn cael eu talu dros eich staff. Am fwy o wybodaeth gweler gwefan y Rheoleiddiwr Pensiynau: www.thepensionsregulator.gov.uk/en/employers/increase-of-automatic-enrolment-contributions



# Codi Hwyl wrth Godi Arian

**Pêl Foli Traeth/Maes**
Ffordd hyfryd o fwynhau'r haul a mynd ati i gadw'n heini! Sefydlwch dwrnamaint a gofynnwch i dimau fynd ati i gael nawdd.

**Cinio Barbeciw Dinner neu Gystadleuaeth Goginio**
Cynhaliwch farbeciw yn eich clwb, gan werthu tocynnau am fwyd. Ychwanegwch rai gemau tîm hwyliog i danio'ch barbeciw!

**Digwyddiad Gemau Haf**
Gwahoddwch deuluoedd i ddigwyddiad gemau haf, hen ffasiwn yr haf yma, a chynhaliwch ras ferfa, ras mewn sach, ras tri choes, ras ŵy-a-llwy, taflu balŵns dŵr, a gemau dal-y-faner a thynnu-rhaff. Gofynnwch am leiafswm rhodd, a gallech hefyd gael thema gwisg ffansi.

**Brwydr Balŵns Dŵr**
Does dim yn fwy hafaidd na brwydr balŵns dŵr! Bydd plant wrth eu boddau'n mynd i'r tu allan, cael hwyl a chyfle i oeri ar ddiwrnod poeth o haf. Gallech godi ffi am fynediad neu werthu balŵns dŵr fel digwyddiad ar ei ben ei hun, neu ran o ddigwyddiad haf mawr (e.e. parti neu bicnic haf).

**Parti Hufen-iâ**
Mae pawb yn dwlu ar hufen-iâ!. Gwnewch yn siŵr fod gennych chi le oer i storio'r hufen-iâ a digon o le i'r plant a'r oedolion siarad a chymysgu.

**Ffilm Awyr-agored**
Codwr arian ardderchog i'r haf, ac addas i deuluoedd. Mae'r potensial yma i godi tipyn go lew o arian wrth ddarparu noson ardderchog o ddifyrrwch. Gallech hefyd werthu diodydd a byrbrydau. Cofiwch y tywydd y byddwch yn disgwyl a'r adegau machlud (yr amser a argymhellir i ddechrau ffilm awyr-agored yw 15-30 munud wedi machlud haul).

**Ffeiriau a Charnifalau**
Cynhelir llawer o ffeiriau haf a charnifalau dros yr haf. Siaradwch â'r Pennaeth/y trefnydd i wybod pa bryd maen nhw'n digwydd ac i ofyn a gallwch gael stondin/ardal ar y diwrnod i chwarae gemau plant.

## Cefnogwch Ni wrth inni'ch Cefnogi Chi!

Nid yw siopa ar-lein drwy www.easyfundraising.org.uk/clybiauplantcymrukidsclubs yn costio ceiniog yn ychwanegol, ond y mae'n caniatáu i ni dderbyn hyd at 15% o bob pryniant a wnaed o'r 400+ o siopau a restrir, gan olygu y bydd gennym fwy o arian i barhau i gefnogi clybiau megis eich clwb chi.



## e-newyddion

Fel aelod-glwb cewch afael ar ôl-rifynnau ein bwletinau e-newyddion yn ardal aelodau ein gwefan, sef www.clybiauplantcymru.org ac os oes gennym gyfeiriad ebost ar eich cyfer, anfonwch rhifynnau o'r Bont i'r dyfodol atoch yn uniongyrchol. Anfonwch eich manylion ebost imembership@clybiauplantcymru.org er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn eich copi electronig.


**Out of School**

Yswiriant ALL-YSGOL i glybiau all-ysgol



Gostyngiad o tua **15% i aelodau** Clybiau Plant Cymru Kids'

Mae yswiriant All-Ysgol wedi ei gynllunio'n arbennig i glybiau al-ysgol sy'n darparu gweithgareddau cyn ac ar ôl oriau ysgol.

Am fwy o wybodaeth ewch i
**www.mortonmichel.com/outofschool**
e-bostiwch
**outofschool@mortonmichel.com**
neu ffoniwch
**020 8603 0943**

Morton Michel
The Childcare Insurance Specialist

Awdurdodir a Rheoleiddir Morton Michel Cyf ('Morton Michel') gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

# Prosiectau

## Codi Arian mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol – Santander

Yn ystod y Gwanwyn 2019 fe wnaethom redeg cystadleuaeth i aelodau Clybiau Gofal Plant Allysgol sy'n aelodau ar draws Cymru i weithio gyda phlant yn eu Lleoliad i gyflwyno Syniad Codi Arian.

Rhoddwyd amrywiaeth ardderchog o syniadau am godi arian gerbron, a hoffem ddiolch i'r holl Glybiau Gofal Plant Allysgol a anfonodd i mewn geisiadau a oedd wedi eu datblygu gan y plant yn eu gofal. Dewiswyd 8 Clwb Buddugol i dderbyn Gweithdy Codi Arian, sy'n helpu plant i feithrin sgiliau bywyd gwerthfawr o ran cynllunio ariannol, cadw cyfrifon, marchnata a rheoli prosiect. Cynhaliwyd yr holl Weithdai yn ystod Ebrill a Mai 2019.

Rhoddwyd £50 i bob un o'r 8 Clwb Gofal Plant Allysgol tuag at y gwariant angenrheidiol yng nghwrs eu digwyddiad, a byddant yn cynnal eu Gweithgaredd Codi Arian cyn Gwyliau'r Haf.

Y Timau Buddugol oedd:

**TEMPS – The Eating Meeting Playscheme**, Wrecsam a'u syniad o sefydlu stondin losin mewn Ffair Eglwys i godi arian.

**Busy Bees**, Gilfach Goch, RhCT a'u syniad o gynnal sioe, gwerthu tocynnau, bwyd/diod a chynnal raffl i godi arian.

**Kidz Den**, Merthyr Tudful a'u syniad o gynnal eu ffair ben bwrdd eu hunain i godi arian. Byddent yn gwahodd busnesau lleol bychain eraill ac yn gwerthu cacenni, teganau a roddwyd, a sleim wedi ei wneud gan y plant.

**Clwb Carco Pwll Coch**, Caerdydd a'u syniad o gynnal Dydd Hwyl i godi arian, gan werthu cacenni, paentio wynebau, cynnal barbeciw, sioe dalent a thaflu sbwnjis at yr Arweinydd Chwarae.

**Clwb Allysgol Ollie's**, Sir y Fflint a'u syniad codi arian i gynnal golchfa geir, yn cynnwys sioe sydyn yn gwerthu bwyd/diod.

**Clwb Ôl-ysgol Sbort,** Caerdydd a'u syniad o sefydlu café ar thema Paris i godi arian; byddent yn gwerthu cacenni cwpan a diodydd (ry'n ni'n dwlu ar y poster mae'r plant wedi eu creu i hysbysebu'u café!).

**Annexe Alive**, Sir y Fflint a'u syniad o wneud a gwerthu conau melys i godi arian.

**Clwb Allysgol Lliswerry**, Casnewydd a'u syniad o redeg stondin gwneud sleim yn ffair yr ysgol er mwyn codi arian.

Pob lwc i bob un o'r Clybiau Gofal Plant Allysgol sydd ynglŷn â'ch digwyddiadau; edrychwn ymlaen at weld canlyniadau'ch prosiectau!

Santander FOUNDATION

## Prosiect Cymraeg Gwaith - y stori hyd yma…

Mae **Cymraeg Gwaith** yn rhaglen arloesol genedlaethol o hyfforddi yn yr iaith Gymraeg er mwyn cefnogi cyflogwyr o bob sector yng Nghymru i ddatblygu sgiliau eu gweithluoedd yn yr iaith Gymraeg.

Mae **Cymraeg Cynnar** yn is-linyn o **Cymraeg Gwaith,** a'i nod yw datblygu dealltwriaeth o'r amrediad o sgiliau a hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg sydd ei angen yn y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae er mwyn datblygu cyrsiau iaith-Gymraeg sy'n benodol i weithlu.

**EDI Rhan 1: Awst 2017 – Mawrth 2018**
Comisiynwyd CWLWM i gasglu a dadansoddi data ar **ganfyddiad** unigolion o'i sgiliau iaith-Gymraeg. Cyrhaeddwyd at hyn drwy gynnal 600 sgwrs un-i-un gyda gweithwyr gofal plant.

Gwnaeth y tîm hefyd ddrafftio cwestiynau pwrpasol ar gyfer y Gwiriwr – y Learn Welsh Level Checker.

**EDI Rhan 2: Ebrill 2018 – Mawrth 2019**
Gweithiodd partneriaid CWLWM gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sefydlu gwaelodlin sgiliau yn yr iaith Gymraeg ar gyfer y gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae. Gwnaed hyn drwy gasglu data drwy'r Gwiriwr – Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg a ddefnyddiwyd gan 753 cyfranogwr.

Gwnaeth y tîm hefyd dreialu 9 cwrs hyfforddi yn yr iaith Gymraeg, gan ddefnyddio 4 model cyflenwi gwahanol ar gyfer amrywiaeth o wahanol alluoedd.




I'r rhai ohonoch sy'n ein dilyn ar Facebook, mae'n bosibl eich bod wedi gweld fideo newydd y gwnaethom ei rannu yn ddiweddar gyda phlant yn defnyddio Cymraeg wrth chwarae. Y gyntaf mewn cyfres o fideos y byddwn yn eu creu oedd Yn yr Ardd; mae hwn yn dangos plant yn defnyddio Cymraeg, er mwyn annog plant eraill i wneud yr un peth

Mae hwn yn rhan o'n hymgyrch Iaith Gymraeg newydd, 'Welsh Now in a Minute', sydd wedi ei anelu at Glybiau Gofal Plant Allysgol i'w helpu nhw, a Gweithwyr Chwarae, i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu chwarae.

7 x sesiwn 3 hour wythnosol

| | |
|---|---|
| • Wrecsam | Sylfaen |
| • Llanelli | Sylfaen |
| • Sir Benfro | Sylfaen |
| • Bangor | Uwch |

10 x sesiwn 2 hour yn ystod y dydd

| | |
|---|---|
| • Wrecsam | Mynediad |

3 x sesiwn 7 awr diwrnod llawn

| | |
|---|---|
| • Merthyr | Mynediad |

7 x sesiwn 3 awr yn dysgu mewn gweithle

| | |
|---|---|
| • Y Barri | Mynediad |
| • Y Trallwng | Canolradd |
| • Rhuthun | Sylfaen |

**Beth nesaf? Mawrth 2019-2020**
Bydd Cwrs Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg ar-lein hefyd yn cael ei ddatblygu gyda'r nod o helpu Gweithwyr Chwarae i ddeall yn well gwerth dysgu Cymraeg.

Wedi gorffen yr ymchwil, gwyddom fod ar y mwyafrif o'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae angen cyrsiau iaith-Gymraeg ar lefel Mynediad (neu ddechreuwyr). Bydd y darparwyr hyfforddiant yn awr yn gweithio gyda phartneriaid CWLWM i adnabod orau y lleoliadau mwyaf priodol a'r lefelau mwyaf priodol o gyrsiau, felly gwyliwch am hyfforddiant AM DDIM yn yr iaith Gymraeg yn agos atoch chi.

Rydym hefyd yn llawn cyffro i gyhoeddi y bydd staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, yn dilyn y cyrsiau, ar gael i helpu dysgwyr i wneud defnydd o'r defnyddiau cwrs ychwanegol a ddarperir, gan gefnogi dysgwyr mewn ffordd ymarferol i roi eu dysgu ar waith yn eu hamgylchedd chwarae.

Nid ydym yn disgwyl pobl i ddod yn rhugl dros nos, ond hoffem weld lleoliadau'n ymgorffori dim ond tipyn bach o Gymraeg lle gallant – hyd yn oed os mai dim ond gair neu ymadrodd hwnt ac yma fyddai hynny.

Byddwn yn creu ac yn uwchlwytho fideos ar wahanol bynciau bob wythnos:
Ebrill - Yn y Ardd
Mai - Amser Bwyd
Mehefin - Chwaraeon
Gorffennaf – Brawddegau syml

Byddem yn falch petaech yn edrych ar y fideos yma a rhoi gwybod i ni eich barn, a byddem hefyd wrth ein bodd petaech am ddod yn rhan o'r ymgyrch, gan rannu fideos o blant yn eich lleoliad yn defnyddio'u Cymraeg. Os hoffech fod yn rhan o'r prosiect, anfonwch e-bost i info@clybiauplantcymru.org

I gyd-fynd â'r fideos yma byddwn yn cynhyrchu yn ogystal bosteri y gellir eu lawrlwytho'n hawdd, rhai y gallwch eu harddangos ar waliau..



## Asiantaeth Ofod y DU – Y Gofod i Bawb

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn falch o allu derbyn arian gan Asiantaeth Ofod y DU drwy eu Rhaglen Grantiau Gofod i Bawb.

Bydd ein Prosiect yn cynnwys datblygu gweithdy newydd, llawn hwyl ac ymarferol ar thema'r Gofod. Bydd gweithgareddau o'r gweithdy hwn yn cael eu cyflenwi mewn 3 Diwrnod Chwarae wedi'u trefnu gan Awdurdodau Lleol ar draws Cymru ym mis Awst 2019. Bydd hefyd gyfle i'r 6 Chlwb Gofal Plant Allysgol dderbyn Gweithdy Gofod am ddim yn eu clwb - i gael y manylion gwyliwch y tudalen prosiectau ar ein gwefan a'n tudalen Facebook!

Bydd 3 digwyddiad "Lansio" Rhanbarthol, a chyfle i Weithwyr Chwarae o bob rhan o Gymru dderbyn yr hyfforddiant newydd yma, yn ogystal â chyfle i brofi 'planetariwm chwyth' dan nawdd Dark Sky Wales, a fydd hefyd yn bresennol ym mhob digwyddiad.

UK SPACE AGENCY

## Gwiriwr – Gwirydd Lefel Dysgu Cymraeg

Ers mis Awst diwethaf rydym wedi bod yn gofyn i Weithwyr Chwarae gwblhau erfyn ar-lein er mwyn deall yn well anghenion Gweithwyr Chwarae pan ddaw'n fater o ddysgu Cymraeg. Enw'r erfyn ar-lein Gwiriwr - Gwirydd Lefel Dysgu Cymraeg.

Roedd yr erfyn ar-lein hwn yn mesur sgiliau unigolyn yn yr iaith Gymraeg, drwy brofi ei sgiliau dysgu, ysgrifennu, gwrando a siarad. Ar y diwedd, rhoddwyd i bob unigolyn 'lefel' o allu Cymraeg, o lefel Mynediad drwodd i lefel Uwch.

Mae'n bleser gennym adrodd bod 191 o weithwyr chwarae o Glybiau Gofal Plant Allysgol wedi cofrestru i gymryd rhan yn y Gwiriwr a hoffem ddiolch i bawb a roddodd yr amser i gefnogi'r prosiect. Drwy ein helpu i gasglu adborth rydym wedi gallu gwneud argymhellion ar newidiadau ar gyfer defnyddwyr y dyfodol.

Ar y cyfan, roedd defnyddwyr y Gwiriwr yn gadarnhaol ynghylch ennill cael syniad gwrthrychol o'u lefelau sgil presennol yn yr iaith Gymraeg. Er gwaetha'r heriau technolegol a wynebwyd dros gyfnod y prosiect, nododd defnyddwyr eu bod yn gweld Gwiriwr fel cam cadarnhaol ymlaen, yn enwedig drwy roi cyfle i unigolion a chyflogwyr ddewis cyrsiau priodol er mwyn iddynt fedru parhau ar eu taith i ddysgu'r Gymraeg.

The Learn Welsh Level Checker
Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg

## Wythnos Wyddoniaeth Prydain 2019

Cafodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs arian gan Wythnos Wyddoniaeth Prydain 2019 i ddatblygu a threialu gweithdy gwyddoniaeth ar y 5 synnwyr, yn rhad ac am ddim. Aeth ein Swyddog Hyfforddi, Sarah Turton i ganolfan taro-i-mewn yn Rhondda Cynon Taf yn ystod Hanner Tymor mis Chwefror i dreialu'r gweithdy, a gymerwyd clip ffilm fideo o'r gweithgareddau hwyliog a ddatblygwyd. Yna rhannwyd y fideos yma drwy ein sianel YouTube (www.youtube.com/channel/UCxABPsAWTZc-t9njxfl7u5A) a thrwy gyfrwng ein tudalen Facebook (www.facebook.com/clybiau) yn ystod Wythnos Wyddoniaeth Prydain, i annog yr holl Glybiau Gofal Plant ledled Cymru i gymryd rhan a darparu syniadau hwyliog a rhad/rhad ac am ddim sy'n ymgorffori gwyddoniaeth, rhai y gellir eu hail-wneud yn eich lleoliadau eich hunain.



Fe wnaeth y plant a'r Gweithwyr Chwarae yng nghanolfan Llanharan Drop-in-Centre fwynhau cymryd rhan yn y gweithdy, ac adroddodd 75% o'r plant ar gynnydd yn eu diddordeb mewn gwyddoniaeth, gan ddisgrifio'r gweithdy fel un "llawn hwyl" a "diddorol".

Os nad ydych wedi gweld y fideos o'r arbrofion a'r gweithgareddau eto, ewch i dudalen Prosiectau ein gwefan i wybod mwy! Hoffem yn fawr glywed gan unrhyw Glybiau Gofal Plant Allysgol, gan ddefnyddio'r syniadau yn eu lleoliadau eu hunain.

## Cwrdd â'r Tîm!



**Enw:** Catherine Smith

**Teitl eich swydd:** Swyddog Hyfforddi

**Am ba mor hir ydych chi wedi bod yn gweithio i Cybiau Plant Cymru Kids' Clubs?** 4 mis fel Swyddog Hyfforddi.

**Beth yw eich hoff atgof o'ch plentyndod?** Chwarae rownderi yn y stryd.


**Beth ydych chi'n hoff o'i wneud yn eich amser sbâr?** Darllen a threulio amser yn yr awyr agored gyda'm gŵr a'm plant.

Beth yw eich hoff raglen deledu? Line of Duty

Os gallech gael arch-bŵer, beth fyddai a pham? Gallu gweld y dyfodol.

Pe baech wedi'ch gadael ar ynys bellennig gydag un hoff eitem (heblaw am ffôn symudol) beth fyddai a pham? Siocled.

Beth yw'ch hoff ffilm a pham? The Greatest Show Man, Dwi'n hoffi'r caneuon.



Enw: Charlotte Mincher

Teitl eich swydd: Cynorthwyydd Ariannol

Am ba mor hir ydych chi wedi bod yn gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs? Bron i 2 flynedd

Beth yw eich hoff ffilm? The Nightmare before Christmas

Beth fyddai pobl yn synnu i'w wybod amdanoch? Rwyf hefyd yn dysgu eraill i nofio ac rwy'n rhoi gwersi ar y penwythnosau.

A oes gennych unrhyw ffobias? Beth ydyn nhw? Gwyfynod



Enw: Hayley Timms

Teitl eich swydd: Swyddog Hyfforddi Gorllewin Cymru

Am ba mor hir ydych chi wedi bod yn gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs? Ers Medi 2013

Beth ydych chi'n hoff o'i wneud? Cerddoriaeth, theatr a chanu'r piano.

**Pe baech wedi'ch gadael ar ynys bellennig gyda hoff eitem (heblaw am ffôn symudol) beth fyddai a pham?** Chwaraewr cerddoriaeth o ryw fath; allwn i ddim byw heb gerddoriaeth!

**Beth fyddai pobl yn synnu o'i wybod amdanoch?** Dwi'n dysgu siarad Pwyleg.

**Beth yw eich hoff ffilm a pham?** The Notebook am ei fod yn stori mor brydferth.

**A oes gennych unrhyw ffobias? Beth ydyn nhw?** Mae brogaod yn codi ofn mawr arna i, ac mae'n gas gen i hedfan!



**Enw:** Pawel Grzyb

**Teitl y swydd:** Cynorthwyydd Ariannol

**Am bâ mor hir ydych chi wedi bod yn gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs?** Dwy flynedd.

**Beth yw'ch hoff atgof o'ch plentyndod?** Treulio'r haf gyda'm neiniau a theidiau.

**Os gallech gael arch-bŵer, beth fyddai a pham?** Telegludo – fel y gallwn weld mwy o leoedd yn y byd.

**Beth fyddai pobl yn synnu o'i wybod amdanoch?** Ro'n i'n arfer bod yn athro mathemateg.

**Beth yw'ch hoff ffilm a pham?** Pulp fiction, am nad yw'r stori mewn trefn, sy'n ei gwneud yn ffilm fwy diddorol.

# Diweddariad i Gyflogwyr

## Ydych chi'n barod am Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)?

Mae pob Clwb Gofal Plant Allysgol Cofrestredig yn cael archwiliadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) er mwyn sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu, a'u bod yn glynu wrth y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Os ydych wedi cael archwiliad o'r blaen, mae'n bosibl y byddwch yn ymwybodol o'r mathau o bolisïau/prosesau/gweithdrefnau y bydd AGC o bosibl yn eu hadolygu. Fel atgoffiad o'r pethau y dylid eu hadolygu yn rheolaidd i wneud yn sicr fod eich lleoliad yn 'Barod am Archwiliad' byddwn yn cynnwys yr erthygl hon ym mhob rhifyn o'r Bont, gyda detholiad o brosesau/gweithdrefnau y gellid edrych arnynt yn eich Archwiliad nesaf. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, a dylid ei hystyried ar y cyd â deddfwriaeth berthnasol, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a dogfennau cefnogol eraill (er enghraifft, ein hadnodd 'Camu Allan').

**Diogelu**
Rhaid i bob Clwb Gofal Plant Allysgol fod â Pholisi a Gweithdrefn Amddiffyn Plant/Diogelu yn eu lle, rhai a gaiff eu hadolygu o leiaf yn flynyddol, ac yn ôl, a phryd, y bydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth. Dylai pob aelod o'r staff sy'n gweithio gyda phlant hefyd gael eu hyfforddi mewn Diogelu.

Er hynny, mae rhai lleoliadau wedi cael adborth mewn archwiliadau diweddar fod angen sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r Polisi a'r Weithdrefn Diogelu, a'u bod yn eu deall; mae hyn oherwydd y gellid gofyn cwestiynau iddynt yn unigol ynghylch hyn yn ystod yr archwiliadau. Y mae felly'n hanfodol fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r weithdrefn, eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain yn hyn o beth, a'u bod yn gwybod ym mhle i ddod o hyd i Bolisi a Gweithdrefn y lleoliad.

**Driliau Gwacáu Tuag yn Ôl**
Rydym wedi cael adborth gan rai Clybiau Gofal Plant Allysgol fod eu Polisi/ Gweithdrefn Frys wedi cael ei adolygu mewn archwiliadau diweddar. Mae Gwacáu tuag yn ôl yn digwydd pan fydd amodau y tu mewn i adeilad yn fwy diogel na'r amodau y tu allan, ac fel mewn achosion eraill o Wacáu, dylid cwblhau adroddiad digwyddiad, gan hysbysu'r Gwasanaethau Brys, AGC a'ch darparydd yswiriant fel, a phan, y bo'n berthnasol.

Dylid cwblhau Driliau Tuag yn Ôl yn rheolaidd yn unol â'ch Polisi a'ch Asesiad Risg.

Ceir templedi o Weithdrefnau Brys, yn cynnwys Gwacáu Tuag yn Ôl a Driliau, yn ein hadnodd, Camu Allan, sydd yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd ar gyfer ei gynnwys ar ein gwefan.

**Cludiant**
A nifer cynyddol o leoliadau ledled Cymru yn darparu gofal Cofleidiol neu gasglu o ysgolion a defnyddio cerbydau i wneud hynny, mae'n hanfodol eich bod yn gwneud yn sicr eich bod yn glynu at y ddeddfwriaeth berthnasol a'r arferion gorau mewn perthynas â Chludiant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y cerbyd (a'r gyrrwr) wedi eu gwarchod gan yr yswiriant perthnasol (yn cynnwys bod wedi'u hyswirio ar gyfer Defnydd Busnes), gan wneud yn sicr fod y cerbyd wedi ei drethu a bod ganddo dystysgrif MOT gyfredol, bod â rhestr wirio'r defnydd o'r cerbyd a chynnal a chadw yn ei le (gweler templed ar gyfer hyn yn Camu Allan), sicrhau bod eich Polisi a Gweithdrefn Cyrraedd a Chasglu yn ddigonol ar gyfer cludo plant, cynnal ac adolygu asesiad risg o deithiau, a bod yr holl blant wedi eu rhoi i eistedd mewn sedd car sy'n addas i'w hoed/taldra ac sy'n dilyn y ddeddfwriaeth berthnasol.

## Clybiau Gofal Plant Allysgol a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru'n cael y cyfleoedd gorau i wneud yn dda mewn bywyd. Mae rhai plant a phobl ifanc yn cael dysgu'n anoddach na'r mwyafrif o blant eraill o'r un oed â nhw, o ganlyniad i angen dysgu ychwanegol. I gefnogi cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) (2018), sy'n sefydlu'r fframwaith statudol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gymryd lle'r ddeddfwriaeth ynghylch anghenion addysgol arbennig ('AAA'). Cyflwynodd y Ddeddf, ymhlith pethau eraill, cynllun statudol newydd yn dwyn yr enw 'cynllun datblygu unigol'.

Yn ystod y Gwanwyn 2019 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar God Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n ddogfen yn egluro sut y mae'n rhaid/y dylid rhoi'r Ddeddf ar waith, gan amlinellu cyfrifoldeb ysgolion, colegau, Awdurdodau Lleol a gwasanaethau iechyd mewn perthynas â chefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mawrth a bydd y Cod terfynol ar gael ym mis Rhagfyr 2019.

**Beth yw rôl Clybiau Gofal Plant Allysgol o ran y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol?**

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi trafod y Cod a'i berthynas ag Arweinydd Trosglwyddo Canol y De, a eglurodd:

- Nad yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi eu hariannu'n gyhoeddus i ddarparu addysg, ac o ganlyniad, nad oes ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol o ran y Ddeddf ADY / Cod ADY.
- Cyfrifoldeb yr Ysgol/Coleg/Awdurdod Lleol yw sicrhau y bodlonir gofynion Deddf a Chod ADY, a bod cynlluniau datblygu unigol (CDU) yn eu lle yn ôl y gofyn.
- Er nad oes gan Clybiau Gofal Plant Allysgol (a lleoliadau gofal-plant eraill nad ydych yn darparu lleoedd addysg wedi'u hariannu) gyfrifoldeb cyfreithiol, gallent fod yn rhan o'r cynllunio person-ganolog a allai helpu i greu darlun o anghenion y plentyn (e.e. gall gweithiwr allweddol fod â syniad da o anghenion plentyn/beth sy'n gweithio o ran cefnogaeth, a allai ddylanwadu ar gynnwys y CDU neu sut y caiff yna ei roi ar waith).
- Gall y CDU hefyd ddylanwadu ar sut y mae Clwb Gofal Plant Allysgol adnabod yr anghenion am gefnogaeth o ran ymgysylltu yn y cyfleoedd chwarae a ddarperir ar gyfer plentyn unigol, neu ar gyfer elfennau o'r gofal plant a gynigir, megis mynd am dro o safle'r ysgol. O ganlyniad, gallai deialog rhwng yr ysgol a gwasanaethau megis Clybiau Gofal Plant Allysgol fod yn ddefnyddiol, nid yn unig i'r plentyn ond i'r darparwyr yn ogystal.
- Bydd pob Awdurdod Lleol yn penodi Swyddog ADY y Blynyddoedd Cynnar a allai fod yn bwynt cyswllt i Glybiau Gofal Plant Allysgol neu ddarparwyr gofal-plant eraill sydd am wybod a oes ffordd arbennig y gallant helpu plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o ran cefnogi CDU.



### Absenoldeb Galar i Rieni

Disgwylir hawl newydd i absenoldeb â thâl i rieni mewn galar ddod i rym yn 2020. Bydd rhieni sy'n gyflogedig yn ennill yr hawl i o leiaf bythefnos o absenoldeb yn dilyn marwolaeth plentyn dan 18 mlwydd oed. Bydd yr hawl hon yn gymwys o'r diwrnod cyntaf o gyflogaeth. Bydd gan rieni mewn galar yr hawl yn ogystal i gael eu talu pan fyddant o'r gwaith os byddant yn bodloni'r meini prawf cymhwyster.

**Camwahaniaethu o ran Oed yn y Gweithle** Mae Acas wedi llunio arweiniad newydd ar atal gwahaniaethu o ran oed yn y gweithle. Mae'r arweiniad 27-tudalen o hyd, sef "Age discrimination: key points for the workplace', yn diffinio gwahanol fathau o wahaniaethu o ran oed (uniongyrchol, anuniongyrchol, aflonyddu a.y.b.) ac yn rhoi trosolwg o'r mannau lle y gall gwahaniaethu ddigwydd (wrth recriwtio, hyfforddi, adegau diswyddo ac yn y blaen).

Yn gydymaith i'r prif arweiniad y mae dwy ddalen ffeithiau un-tudalen, sy'n rhestru 10 rhwymedigaeth cyflogwr a 10 o'r prif chwedlau sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu o ran oed.

I lawrlwytho'r arweiniad, ewch i'r tudalen gwahaniaethu o ran oed ar wefan Acas www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=1841.

### Nabod eich Marchnad

Mae ymchwil i'r farchnad neu **gasglu gwybodaeth am anghenion a dewisiadau teuluoedd** yn weithred barhaus, bwysig i Glybiau Gofal Plant Allysgol ymgymryd ag ef. Bydd yn gefn i'ch **Adolygiad Ansawdd Gofal**, sydyn rhaid ei ddiweddaru'n rheolaidd i bwrpasau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ac yn dweud wrthych sut y gallwch **wella** ac ateb yn well **anghenion eich teuluoedd**.

Gallwch wneud hyn drwy gyfrwng holiaduron bodlonrwydd, ymgynghoriadau grŵp, nosweithiau rhieni, diwrnodau agored, neu drwy ddulliau casglu-data cyflym (e.e. pleidleisio dot) ar adegau casglu/gollwng. Gall yr ymgynghoriad fod gyda defnyddwyr presennol y gwasanaeth, neu gyda'r gymuned ehangach er mwyn cyrraedd teuluoedd, nad ydynt yn defnyddio'ch gwasanaeth ar hyn o bryd, i sefydlu'r rhesymau/rhwystrau.

Mae cadw'n gyfamserol o ran **cyfleoedd a bygythiadau** hefyd yn bwysig. Er enghraifft, bydd **cwsmeriaid posibl, cynlluniau adeiladu-tai newydd, ysgolion sy'n cau**, oll yn effeithio'n sylweddol ar eich Clwb Allysgol. A wyddech chi, er enghraifft, bod **ysgolion mewn sawl ardal awdurdod lleol, megis Sir Benfro, Ynys Môn, Bro Morgannwg a Phowys wedi bod yn ymgynghori ar gau ysgolion yn gynharach yn y diwrnod** - o bosibl, o amser cinio bob dydd Gwener.

Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am **adolygiadau rheolaidd** o anghenion gofal plant eich cymuned leol, gan y gall yr anghenion hyn newid, a all roi cyfle i chi **ymestyn eich gwasanaethau** gan gynorthwyo rhieni/gofalwyr i barhau yn eu cyflogaeth/hyfforddiant, neu gall ei gwneud yn ofynnol i chi gofrestru ag AGC i redeg yn hwy nag am 2 awr, lle nad oedd hyn gynt yn bosibl Gall newidiadau megis diwygiadau i oriau agor ysgol yn ogystal roi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau gofal-plant newydd, lle na fyddai digon o alw efallai wedi bod yn y gorffennol.

Dowch i gysylltiad os oes gennych unrhyw gwestiynau - info@clybiauplantcymru.org

## Y daith i ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol

Bydd nifer o'r Clybiau Gofal Plant Allysgol sy'n cael eu rheoli'n wirfoddol, wrth ddarllen yr erthygl yma, wedi clywed bod Cyfundrefnau mantell yn awgrymu eich bod yn ystyried trosglwyddo'ch busnes i ddod yn SCE (Sefydliad Corfforedig Elusennol).

Y cam cyntaf wrth ddod yn SCE yw penderfynu fel pwyllgor eich bod yn cytuno i wneud y trosglwyddiad, ond pam ddylech chi ddod yn SCE? Mae sawl rheswm cyfreithiol pam y dylech wneud hynny:
• Mae amcanion eich gwaith yn rhai elusennol ac felly mae'n rhwymedigaeth gyfreithiol arnoch i wneud
• Mae eich pwyllgor yn cael amddiffyniad ariannol unigol o dan strwythur SCE.

Dyma rai o'r rhesymau a roddwyd i ni gan bwyllgorau Clybiau Gofal Plant Allysgol sy'n cael eu rheoli'n wirfoddol:

"Roedd y model SCE yn addas ar gyfer yr hyn yr ydym am ei gyflenwi ac ar gyfer galluogi'r clwb i estyn allan i'r gymuned ehangach â phrosiectau newydd, addas."

"Roedd y penderfyniad i ni ddod yn gorfforedig yn unig er mwyn darparu gwasanaeth cynaliadwy, y mae ei daer angen yn yr ardal leol hon, sydd â'r nod o gefnogi teuluoedd ar incwm isel."

Nid oes raid i chi fynd drwy'r broses hon ac eich pen eich hun: mae staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ar gael i'ch cynorthwyo drwy'r broses hon. Mewn siroedd lle mae aelod o'r staff wedi ei ariannu gallwn ymweld â chi yn eich lleoliad a rhoi cefnogaeth wyneb-yn-wyneb. Mewn siroedd lle nad oes staff wedi eu hariannu, gellir rhoi cefnogaeth dros y ffôn, drwy e-bost neu hyd yn oed wyneb-yn-wyneb â'n haelodau yn un o'n Swyddfeydd Rhanbarthol (Caerdydd, Bae Colwyn neu Cross Hands).

*"Gyda help Gweithiwr Datblygu yn Clybiau Cymru Kids' Clubs roedd yn hawdd dod o hyd i wybodaeth ar ddod yn SCE. Roedd yr holl broses yn llawer haws i fynd drwyddi gyda chefnogaeth."*

Y cam nesaf yw penderfynu o fodel o SCE sydd orau i'ch Clwb Gofal Plant Allysgol:
*Model Sylfaen*: byddai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn perthyn i'r model yma
*Model Cysylltiedig:* fel yn achos y model Sylfaen, mae aelodau'r model yn Ymddiriedolwyr, ond mae'r model yn agored i aelodaeth ehangach h.y. rhieni plant sy'n mynychu'ch lleoliad (nad ydynt yn eistedd ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr).

Mae gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs samplau o gyfansoddiadau yn barod ar gyfer holl leoliadau'n haelodau sy'n barod i drosglwyddo a dod yn SCE.

Yn ein rhifyn nesaf o'r Bont, byddwn yn edrych ar y camau nesaf ar y daith. Ond os na allwch aros, a'ch bod yn barod i ddechrau'r daith yn awr, byddem yn ddiolchgar pe baech yn cysylltu â'ch swyddfa leol.

**Swyddfa Ranbarthol De Ddwyrain Cymru**
029 2074 1000
info@clybiauplantcymru.org

**Swyddfa Ranbarthol Gogledd Cymru**
01492 536318
info-nw@clybiauplantcymru.org

**Swyddfa Ranbarthol Gorllewin Cymru**
01269 831010
info-ww@clybiauplantcymru.org

## Manteision Bydïo
### – ymhlith Rheolwyr/Pobl mewn Gofal

Gall gweithio yn y Sector Gofal Plant ddod â gwobrau enfawr yn ei sgil, ond gall hefyd ddod â llond gwlad o heriau. Dylai gweithwyr chwarae a staff mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol a Lleoliadau Gofal Plant gael sesiynau goruchwylio rheolaidd, ynghyd ag arfarniad blynyddol, gan roi digon o gyfleoedd i drafod unrhyw faterion sy'n codi, pryderon a'r heriau sy'n eu hwynebu, ac i gael cyngor, cefnogaeth ac arweiniad. Ond os mai chi yw Rheolwr lleoliad a/neu'r Person â Gofal, does dim person addas ar gael bob tro i roi cefnogaeth/arweiniad i chi, neu rywun y gallwch drafod materion, pryderon neu heriau gyda nhw.

Mewn Lleoliadau sydd wedi eu Rheoli'n Wirfoddol, dylai'r Pwyllgor ddarparu sesiynau goruchwylio ar gyfer y Person â Gofal, ynghyd ag arfarniad blynyddol; mewn rhai lleoliadau sy'n cael eu rheoli'n breifat mae Perchennog yn gallu gwneud yr un fath i'r Rheolwr. Ond, does gan yr unigolion hyn ddim, bob tro, y wybodaeth, y profiad a'r ddealltwriaeth gynhwysfawr o weithio yn y Sector Gofal Plant Allysgol i fodloni'n llawn anghenion cefnogaeth y Person â Gofal o ddydd i ddydd.

Un ffordd y gallech fynd ati i ateb eich anghenion eich hun o ran cefnogaeth fel Rheolwr fyddai i fydïo gyda Rheolwr Lleoliad Gofal Plant arall. Gall hwn fod yn Lleoliad yn eich ardal chi, y byddwch yn gweithio mewn partneriaeth ag ef mewn ffyrdd eraill; gallai fod yn Rheolwr y byddwch wedi ei gyfarfod mewn digwyddiad sirol/sesiwn hyfforddi, neu gallai fod yn Lleoliad ymhellach i ffwrdd. Gall greu perthynas fydis gyda Rheolwr/Person â Gofal arall roi i'r ddau ohonoch y cyfle i ddatrys problemau, trafod heriau, gofyn am gyngor neu ddim ond bod yn glust i wrando ar eich gilydd, heb angen i rannu data personol/sensitif. Gall y berthynas Fydïo nid yn unig roi'r cyfle i drafod materion, ond fod yn ffordd o rannu arferion da a syniadau ar sut i dyfu'r naill a'r llall o'r busnesau a rhoi'r gofal gorau posibl i gymunedau'r ddau.

**Os gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs eich cynorthwyo yn hyn o beth, cysylltwch â ni!**

# Y Cynllun Gwaith Da

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno amrywiaeth o newidiadau polisi ac yn cyflwyno cyfreithiau newydd i roi mwy o amddiffyniadau i gyflogeion a gweithwyr. Mae ei gynllun 'Good Work Plant' wedi ei gyhoeddi, yn dilyn y pedwar ymgynghoriad a ddilynodd ei adroddiad, Good Work Report, a oedd mewn ymateb i adolygiad Taylor.

Mae'r newidiadau sydd wedi eu gosod yn y cynllun, Good Work Plan, yn anelu at "wneud yn siŵr y gall gweithwyr gael mynediad at waith teg a gweddus, bod gan gyflogwyr a gweithwyr ill dau yr eglurder sydd ei angen arnynt i ddeall eu perthnasoedd cyflogaeth, a bod y system orfodi'n deg ac yn addas i'r diben".

**10 pwynt allweddol i gyflogwyr:**
Gwelwch isod 10 pwynt allweddol o Adroddiad y Llywodraeth, Good Work Report. Mae deddfwriaeth ddrafft eisoes wedi ei chyhoeddi mewn perthynas â rhai o'r argymhellion hyn, gyda'r bwriad y byddant yn cael eu gwireddu naill ai yn Ebrill 2019 neu Ebrill 2020. Yn achos eraill, mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn i'r amserlen fod yn llai clir.

**1. Mwy o eglurder ar statws cyflogaeth** – dywed y Llywodraeth y bydd yn cyflwyno deddfwriaeth newydd i egluro'r raw far gyfer statws cyflogaeth sy'n adlewyrchu arferion gweithio modern. Bydd hon yn dasg anodd. Mae'n datgan y bydd hefyd yn ceisio alinio sut y mae'r gyfraith y n ymdrin â statws i bwrpasau treth, a'r statws i bwrpasau hawliau cyflogaeth. Nid oes amserlen wedi ei gosod ar gyfer yr argymhellion hyn, a fydd o bosibl yn arwyddocaol.

Yn ychwanegol, i ategu at eglurder a dealltwriaeth, bydd gan unigolion a chyflogwyr fynediad at offeryn ar-lein a fydd yn penderfynu statws cyflogaeth yn y mwyafrif o achosion.

**2. Estyniad o'r hawl i fanylion ysgrifenedig i bob gweithiwr** – o Ebrill 2020, bydd gan bob gweithiwr (nid cyflogeion yn unig) has i dderbyn dogfen yn gosod i lawr delerau allweddol eu contract (a adnabyddir fel "manylion ysgrifenedig") o ddiwrnod cyntaf eu contract (yn hytrach nag o fewn dau fis fel ar hyn o bryd). Bydd gofynion newydd hefyd am roi gwybodaeth orfodol, ychwanegol yn y manylion ysgrifenedig.

**3. Estyniad o'r hawl i slip tâl** – datganodd y Llywodraeth y byddai pob gweithwyr, yn cynnwys gweithwyr achlysurol a gweithwyr dim-oriau â' hawl i slip tâl o 6 Ebrill 2019 ymlaen. Yn achos gweithwyr rhan-amser rhaid i'r slip hwn ddatgan y nifer o oriau y maent yn derbyn tâl amdanynt.

**4. Yr hawl i bob gweithiwr wneud cais am gontract 'mwy sefydlog'** – bydd hawl gan bob gweithiwr, nid gweithwyr dim-oriau ac asiantaeth yn unig, i ofyn am gontract mwy dibynadwy a sefydlog wedi 26 wythnos o wasanaeth.

**5. Ei gwneud yn haws dangos parhad mewn gwasanaeth** – er mwyn galluogi gweithwyr annodweddiadol i sefydlu 'parhad mewn gwasanaeth' yn haws (gan roi mynediad iddynt i hawliau allweddol), bydd y cyfnod 'toriad mewn gwasanaeth' sy'n cymhwyso yn cael ei ymestyn o un wythnos i bedair. Bydd hyn yn golygu y bydd gan gyflogai, yn gyffredinol, barhad mewn gwasanaeth hyd yn oed os oes ganddynt fylchau o hyd at bedair wythnos yn eu cyfnod gwaith. Mae'r newid yn berthnasol o Ebrill 2020.

**6. Amddiffyniadau newydd i weithwyr yr economi gig** – argymhellodd adroddiad Taylor gyflwyno cyfraddau uwch yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer oriau nad ydynt wedi eu gwarantu fel rhan o'r contract, yn ogystal ag opsiynau i fynd i'r afael â thâl isel. Ond, yn dilyn cyngor gan y comisiwn tâl isel (Low Pay Comission) ar yr un diwrnod a'r cynllun, Good Work Plan, ni fydd y Llywodraeth yn cymryd hyn yn ei flaen. Argymhellodd yr LPC nifer o atebion eraill i ateb hyblygrwydd unochrog, rhai a fydd, yn ôl y Llywodraeth, yn destun ymgynghori pellach.

**7. Hawliau gwyliau ac amser gweithio i weithwyr tymhorol, achlysurol a dim-oriau** – bydd y cyfnod cyfeirnod tâl gwyliau yn cynyddu i 52 o wythnosau (o'r 12 presennol) ym mis Ebrill 2020. Bydd y Llywodraeth hefyd yn lansio ymgyrch ymwybyddiaeth o dâl gwyliau.

**8. Amddiffyniadau i weithwyr asiantaeth** – bydd gweithwyr asiantaeth yn cael tudalen Ffeithiau Allweddol, i gynnwys gwybodaeth ar y math o gontract, eu graddfa dâl, pwy sy'n gyfrifol am dalu amdano ac unrhyw ddidyniadau neu ffioedd a gymerir. Dilëir y 'rhanddirymiad Swedaidd', sydd ar hyn o bryd yn gadael gweithwyr sydd â chontract yn rhoi'r lefel isafswm o dâl rhwng aseiniadau wedi'u heithrio o'r hawl i dâl i dâl sy'n cymharu â thâl cyflogeion parhaol. Mae'r newidiadau hyn yn gymwys o Ebrill 2020.

**9. Gorfodi hawliau gweithwyr hyglwyf i dâl gwyliau, tâl salwch a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, ac adolygiad ehangach o dâl salwch statudol** – bydd system orfodaeth newydd gan y wladwriaeth yn achos tâl gwyliau. Yng nghyd-destun diwygiadau i'r Tâl Salwch Statudol, bydd y Llywodraeth yn ystyried a ddylent wneud newidiadau i ddarpariaethau'r orfodaeth.

**10. Gorfodi dyfarniadau tribiwnlysoedd a chynyddu dirwyon tribiwnlysoedd yn achos cyflogwyr** – bydd y Llywodraeth yn:
• cyflwyno cynllun "enwi a chywilyddio" yn achos cyflogwyr sy'n methu yn eu dyletswydd i dalu dyfarniadau tribiwnlysoedd, a'i gwneud yn hawl i hawlwyr llwyddiannus i orfodi taliad.
• Cynyddu'r gosb uchaf mewn achosion o fynd yn groes 'yn ddifrifol' i hawliau cyflogaeth, yn effeithiol o Ebrill 6 2019.
• ei gwneud yn ofynnol i dribiwnlysoedd ystyried cosbau cryfach yn achos cyflogwyr sy'n anwybyddu barnau blaenorol tribiwnlysoedd yn eu herbyn.

Yn ychwanegol at yr uchod...
• Mae ailgyflwyno ffioedd tribiwnlysoedd yn edrych yn gynyddol debygol o ystyried bod datganiad y Cynllun Gwaith Da i'r Senedd wedi dangos ei fod "o dan ystyriaeth" gan y Llywodraeth.
• Yn dilyn ymgynghoriad yn 2016 bydd cyflogwyr yn cael eu gwahardd rhag cymryd "ffioedd gweinyddol" neu ddidyniadau eraill o dipiau staff, yn effeithiol o Ebrill 2020.
• Gostyngir y trothwy sy'n ofynnol am gais i osod trefniadau gwybodaeth ac ymgynghori yn eu lle yn o 10% i 2% o gyflogeion, yn ddarostyngedig i'r lleiafswm presennol o 15 o gyflogeion. Bydd hyn yn gymwys o Ebrill 2020.

*Bwriedir i gynnwys yr erthygl hon i roi arweiniad cyffredinol ar bwnc y testun. Dylid ceisio cyngor arbenigol ynghylch eich amgylchiadau penodol.*

